# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 509 · Ebrill 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim**

## Cadwch yn ddiogel - Parchwch y Rheolau



A hithau'n argyfwng gyda'r mwyaf difrifol drwy'r byd cyfan, rydym oll ac un yn sylweddoli pa mor fregus ac agored yr ydym i berygl anweledig y coronafeirws. Ac yn naturiol mae hynny'n dyfnhau ein gwerthfawrogiad o'r gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu am ein hiechyd.

Gan na wyddom pa bryd y cyfyd yr angen am y gwasanaeth hanfodol hwn, mae ein dibyniaeth arno yn llwyr bob amser. O'r herwydd mae'n haeddu cefnogaeth a chynhaliaeth hael a digwestiwn gan lywodraeth y dydd o ba liw bynnag.

Efo'r pwysau ar y gwasanaeth wedi dwysáu yn yr amgylchiadau brawychus a dyrys presennol, mae ein dyled y tu hwnt o fawr i ymdrechion meddygon, nyrsys a staff ategol ein hysbytai, gofalwyr cartrefi'r henoed a chartrefi nyrsio, a gofalwyr sy'n ymweld â chartrefi. Yr un mor allweddol yw'r llu gwirfoddolwyr sy'n cynorthwyo'r gwasanaeth iechyd mewn sawl ffordd. Mi wyddom am rai o'n plith yma yn yr ardal hon sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni gyda'r gwaith hwn.

Manteisiwn hefyd ar y cyfle i fynegi ein diolch i'r rhai sydd wedi chwyddo rhengoedd y gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod brawychus hwn – y rhai sy'n cyfrannu'n greadigol drwy weithredu ar syniadau newydd i godi arian neu gefnogi mewn ffyrdd eraill; a'r rhai sy'n cadw golwg gofalgar ar gymdogion sy'n unig a digymorth drwy gadw mewn cysylltiad dros y ffôn a threfnu i'w cynorthwyo mewn ffurf sy'n dderbyniol.

## Neges gan Bwyllgor Llais Ogwan

O ganlyniad i ymlediad brawychus y coronafeirws, nid oes modd cyhoeddi copi caled o'n papur bro. Penderfynwyd ei gyhoeddi ar ffurf ddigidol. Felly, mae'r rhifyn hwn ar gael am ddim ar ein gwefan (**www.llaisogwan.com**) ac ar wefan Ogwen360 (**ogwen360.cymru**) trwy gymorth a chydweithrediad parod Bro360, cynllun dan ofal y cylchgrawn *Golwg*.




Byddem yn hynod ddiolchgar i'r rhai ohonoch sydd ar gweplyfr a thrydar i'w defnyddio i roi gwybod i gyfeillion a chydnabod bod y papur ar gael i'w ddarllen ar yr uchod.

**Cymerwch ofal, a chadwch yn ddiogel. Parchwch y rheolau arbennig a dilynwch y cyfarwyddiadau.**

**Dymunwn yn dda i'n holl ddarllenwyr a'n gwirfoddolwyr.**

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**CADEIRYDD:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Ieuan Wyn.

Y golygydd ym mis Mai fydd Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, Bangor, LL57 4NY. 01248 600490
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

**PWYSIG: TREFN NEWYDD O RIFYN IONAWR YMLAEN GOFYNNIR I'R DEUNYDD GYRRAEDD Y GOLYGYDD 5 DIWRNOD YN GYNT NA'R ARFER.**

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 25 Ebrill** os gwelwch yn dda.
Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Yn anffodus, nid yw'n bosib i ni ddod at ein gilydd i dynnu'r gwobrau yn ôl ein harfer hyd nes y codir y gwaharddiadau coronafeirws presennol.

Bryd hynny byddwn yn ôl-ddyddio'r gwobrau o fis Ebrill ymlaen.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
**01248 353604**
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £350 | Cyngor Cymuned Llandygái. |
| £10 | Di-enw, er cof am John Huw Evans. |
| £300 | Cyngor Cymuned Pentir. |
| £20 | Er cof am Melvin Griffiths, Plas Pistyll, Rachub oddi wrth Brenda |
| £50 | Alwyn Llwyd, Caerdydd, er cof am Eleri Ifan, Llwyn Onn, Allt Pen y Bryn. |

**Diolch yn fawr**


**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru

**JOHN ROBERTS**

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Amser ni
A oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?
NEU
A oes ganddoch ddiddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?
☎ (01286) 674 686
AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru

**Arfbais Douglas Arms**
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 602537


## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Dwy Ysgoloriaeth**
Llongyfarchiadau i Beca Nia, 36 Bro Emrys, ar ennill Ysgoloriaeth yr Athro Gwyn Thomas i astudio'r Gymraeg, yn ogystal ag Ysgoloriaeth Teilyngdod Prifysgol Bangor.

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen, a'th ffrindiau i gyd yn Nhalybont, yn falch iawn ohonot, Beca. Dymunwn bob llwyddiant a dedwyddwch iti at y dyfodol.

**Daw eto haul ar fryn!**
Rydym yn byw drwy ddyddiau anodd iawn. Mae bygythiad y salwch anweledig yma yn crogi fel cwmwl mawr du dros ein pennau.

Mae teuluoedd a ffrindiau'n cael eu gwahanu, a phob un yn cael ei siarsio i gau'r drws ar y byd y tu allan. Tra'n cydnabod doethineb y cyngor, er mwyn osgoi gwaeledd mawr, rhaid cyfaddef bod unrhyw achos sy'n gwahanu pobl, ac yn peri unigrwydd, yn annifyr dros ben.

Na phoenwch, bobl Talybont, cadwch yn iach a byddwch yn amyneddgar.

Pan fydd hyn i gyd drosodd cawn fwynhau cwmni'n gilydd unwaith eto, a bwrw i'n hoff weithgareddau gyda mwy o frwdfrydedd nac erioed! Daliwn i gredu!

## Capel Bethlehem

**Drysau Cauedig**
Fel y gwyddoch, mae'r aflwydd coronafeirws wedi effeithio ar bawb a phopeth, ac fel pob man cyfarfod arall mae drysau Bethlehem wedi cau. Ni fydd yn bosib cynnal nac oedfa, na bwrlwm, na dosbarth clytwaith, na phwyllgor o gwbl, hyd nes y cawn wybod y bydd yn ddiogel i wneud hynny. Yn y cyfamser, rydym yn anfon ein cofion at bawb o'n haelodau a'n cyfeillion gan hyderu y byddwch yn dod drwy'r cyfnod dyrys yma yn holliach!

**Colli Gwyneth**
Gyda thristwch dwfn y cofnodwn farwolaeth sydyn ac annisgwyl Gwyneth Roberts, Ffarm Cochwillan, yn Ysbyty Gwynedd ar 14 Mawrth, yn 65 mlwydd oed. Roedd yn briod ffyddlon i Wil, yn fam annwyl i Hafwen a'r ddiweddar Heulwen, ac yn nain hoffus a balch i Enfys a Buddug.

Cynhaliwyd ei hangladd gyda gwasanaeth yn y cartref ac ar lan y bedd yn Eglwys St. Cross ddydd Mawrth, 24 Mawrth, gyda'r Parchedig John Pritchard, ei gweinidog, yn gweinyddu.

Byddwn yn gweld ei cholli yma ym Methlehem, ble'r oedd yn aelod ffyddlon a gweithgar, ac yn ffrind dibynadwy i bawb. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

**Cyfarchion a Chofion**
Rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau at Enfys Jones sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Foelas, Llanrug. Hefyd cofion at ei phriod, Llew, ym Mhlas Ogwen. Cofion hefyd at Dilys Williams, hithau yn preswylio ym Mhlas Ogwen ers rhai blynyddoedd bellach. Mae'r sefyllfa yn anodd iawn i bawb gan nad oes hawl i ymweld o dan yr amgylchiadau difrifol sydd yn y wlad.


**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Hughie Hughes, 7 Lônddŵr, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 24 Mawrth.

***Eglwys St Cross***
Er nad ydym yn gallu ymuno â'n gilydd yn yr eglwys ar hyn o bryd, rydym gyda'n gilydd o hyd yn ysbrydol: rydym yn annog ein gilydd i gymryd saib yn ein cartrefi am 10.15 bob bore Sul i gynnau cannwyll, gweddïo a darllen yr Ysgrythurau - ar wahân gyda'n gilydd.

Yn ystod yr argyfwng coronafirws 'ma, lle mae'r rhan mwyaf ohonom yn gorfod aros gartref, does dim rhaid i ni ddweud faint mor ddiolchgar yr ydym i bawb sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, y gwasanaethau argyfwng – ambiwlans, tân, yr heddlu, a hefyd i bawb sy'n cynhyrchu bwyd ac yn gweithio yn y siopau bwyd o hyd, heb anghofio Rhian sy'n dal ati yn dosbarthu'r post i ni bob dydd. Clap mawr i chi i gyd; cadwch iach ac yn ddiogel!

# Neuadd un o Lysoedd ein Tywysogion

Mae'r crefftwyr yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan ar gwr Caerdydd wedi adeiladu neuadd llys brenhinol Cymreig canoloesol. Seiliwyd y cynllun ar batrwm olion neuadd llys Tywysogion Gwynedd yn Rhosyr (Niwbwrch, Môn) ac ar ymchwil archaeolegol a hanesyddol.





Comisiynwyd Cefyn Burgess (sy'n wreiddiol o Fethesda), yr arbengiwr ar ddylunio a chynhyrchu brethynnau, i lunio brithlenni'n gweddu i'r cyfnod ar gyfer eu gosod ar barwydydd y neuadd.

# Partneriaeth Ogwen

**Coronafeirws**

Mae'r coronafeirws wedi ein gorfodi i gau'r swyddfa a Siop Ogwen ond mae staff y Bartneriaeth yn parhau i weithio'n ddygn o'u cartrefi. Ers i'r clefyd ddechrau a nifer o breswylwyr yr ardal orfod hunan-ynysu, mae staff y Bartneriaeth wedi bod yn helpu tîm o wirfoddolwyr sy'n casglu negas a phresgripsiynau i bobl. Mae tîm o tua 90 o bobl bellach yn gwirfoddoli ac yn dystiolaeth o gydweithio cymunedol gwych.

**Cynllun Cadwyn Ogwen**

Mae'r staff hefyd yn edrych ar gynlluniau i helpu busnesau yr ardal, ac maent yn brysur sefydlu platfform ar-lein i werthu a danfon cynnyrch o ddrws i ddrws. Rydym wrthi'n datblygu'r cynllun gyda chwmni Pysgod Ar-Lein, Cosyn Cymru, Yr Ardd Fadarch a Blas Lôn Las. Bydd mwy o wybodaeth am blatfform archebu Cadwyn Ogwen ar ein cyfryngau cymdeithasol yn fuan iawn.

**Gwobrau Green Heart Hero**

Cyrhaeddodd Partneriaeth Ogwen restr fer gwobrau Green Heart Hero sy'n cael eu trefnu gan y Climate Coalition. Er na ddaeth y Bartneriaeth i'r brig, roedd mynychu'r seremoni wobrwyo yng nghwmni'n Aelod Seneddol Hywel Williams yn San Steffan yn fraint.




**Donna Watts a Meleri Davies o Bartneriaeth Ogwen gyda Hywel Williams AS yng ngwobrau Green Heart Hero y Climate Coalition yn Senedd San Steffan fis Mawrth.**

**'Pobol y Chwaral'**

Bu rhai o staff a chyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen ar raglen 'Pobol y Chwaral' yn ddiweddar. Mae'r rhaglen yn dilyn bywydau trigolion yr ardal a bu'r drydedd bennod yn edrych ar rai o'r cymeriadau sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli efo Partneriaeth Ogwen. Roedd sylw i waith Adam, ein Swyddog Cynnal, a chlipiau hyfryd o Griff Charles Morris a Neville Hughes yn glanhau sgriniau cynllun hydro Ynni Ogwen. Roedd cyfweliad gyda Meleri, y Prif Swyddog, yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwaith datblygu cymunedol a phwysigrwydd unigolion fel Griff a Nev i'n cymuned ni. Hoffai holl staff y Bartneriaeth ddiolch o waelod calon i'r ddau am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Dyma englyn a ysbrydolwyd gan y rhaglen wedi ei gyfansoddi gan Cynan (Rheolwr Prosiect Cefnfaes a Bardd Partneriaeth Ogwen!).

**Neville**

Un o hogia Llais Ogwen, - EIN hogyn,
Un o Hogia'r llwyfan;
Un yn gweld bywyd yn gân
A'i ofal dros fro gyfan.





# Ynni Ogwen Cyf.

**Heuldro Ogwen**

Mae chwe adeilad cymunedol bellach hefo paneli solar Ynni Ogwen arnyn nhw! Bydd Clwb Rygbi Bethesda, Clwb Criced Bethesda, Neuadd Ogwen, Swyddfa Partneriaeth Ogwen, Caban Cysgu Gerlan a Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen yn awr yn cael pwer glân cymunedol. Diolch i'n holl bartneriaid prosiect – Interreg ECCO, Cyd Ynni, Partneriaeth Ogwen, DEG, Gareth Griffiths Solar a'r holl adeiladau cymunedol am wneud hyn yn bosibl.





# Ysgol Abercaseg

**Diwrnod y Llyfr**
Roedd dydd Iau y 5ed o Fawrth yn ddiwrnod difyr iawn yn yr ysgol. Roedd y plant wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad ac wedi dod â'u hoff lyfrau i'r ysgol. Cafwyd hwyl yn gwneud lluniau o gloriau eu hoff lyfrau, ysgrifennu pam eu bod nhw'n hoffi'r llyfr, gwneud llinell amser llyfrau plant y dosbarth yn ogystal â defnyddio'r sgrin werdd i gael ychydig o hwyl yn eu rhoi eu hunain yn llefydd eu hoff gymeriadau.

**Ynni Ogwen**
Diolch yn fawr i Huw Davies am ymweliad diddorol iawn â chriw Blwyddyn 2. Cafodd y plant weld ychydig o adnoddau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer creu ynni hydro. Mi rydan ni'n edrych ymlaen at gael ymweliad arall gan Huw a 'Carwen' y car trydan yn fuan.

**Diolch**
Hoffai holl blant a staff Ysgol Abercaseg ddiolch yn fawr iawn i Miss Eirian Madine am ei holl waith dros ei chyfnod fel pennaeth mewn gofal Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen y bryn. Mae Miss Madine wedi gweithio'n ddiddiwedd ac wedi llwyddo mewn cyfnod byr iawn i ddod yn aelod amhrisiadwy o'r tîm. Rydym yn diolch ac yn dymuno'n dda iawn iddi yn ôl yn ei swydd fel athrawes ddosbarth a dirprwy-bennaeth Ysgol Bontnewydd.





C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu


Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

## Glasinfryn a Chaerhun

**Cylch Glasinfryn**
Cafwyd noson Cawl a Chân i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Cylch ar 11 Mawrth. 'Roedd yr adloniant yng ngofal Marian Bryfdir gyda Dafydd o Waunfawr, un o'i disgyblion, yn canu amrywiaeth o ganeuon i'n diddanu. Diddorol oedd cael esboniadau a storïau "tu ôl i'r gân" gan Marian. Diolchwyd i Marian a Dafydd gan Elizabeth. Yn dilyn, cafwyd swper gwerth chweil wedi ei ddarparu gan yr aelodau, hyn yn rhoi diweddglo penigamp ar noson hyfryd!

**Y Ganolfan**
Oherwydd feirws corona, mae pob gweithgaredd yn y Ganolfan wedi ei ohirio nes bydd y sefyllfa wedi gwella ac y cawn fynd o gwmpas ei bywyd bob dydd unwaith eto. Yn y cyfamser, cadwch yn ddiogel ac yn saff i gyd.

Estynnwn ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan i chwi oll.

# Y Barcut Coch



Wel, mi oedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i ddweud ond angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel mae'n digwydd yn aml ddoth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, wedi bod yn ddigon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio a gosod y camera yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant ble maen nhw yn bwydo'r barcud coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i bwced o gig, yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, rhan fwyaf roeddwn i'n gallu taflu a dwsin i gadw. Dyma oedd y gorau. Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.

Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech cyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi cael eu hallforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.

Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo, peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera. Mwynhewch gyda'ch llygaid!

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal yr wythnos yma. Bydd croeso mawr i chi!

**Rob Evans**

(Diolch i Rob Evans o Gymdeithas Edward Llwyd am yr erthygl a'r llun. Mae'r barcut coch wedi ei weld yma yn Nyffryn Ogwen, ond ni wyddom a yw'n nythu yn yr ardal.)

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 298763

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

**Dymunwn fel pwyllgor Llais Ogwan ddiolch i Caren a Linda am eu parodrwydd i ymgymryd â'r gwaith o gasglu newyddion y Gerlan.**

**Pen-blwyddi Arbennig**
Pen-blwydd hapus iawn i Amanda Davies yn 50 oed. Dwi'n siŵr bod 'na hen ddathlu wedi bod yn Tŷ Dŵr – gobeithio dy fod wedi mwynhau a chael dy sbwylio gan y teulu.

'Roedd gan Gethin Roberts, Ffordd Gerlan ddau achos i ddathlu mis yma. Nid yn unig bod Gethin wedi cael ei ben-blwydd yn 21 oed. Pob dymuniad da iti, Gethin.

**Croeso i'r Gerlan**
Croeso mawr i Bedwyr ac Emma i'w cartref newydd yn Ffordd Gerlan. Mae Bedwyr, sydd wedi ei fagu yn Nant Graen, wedi symud i hen gartref ei dad a'i nain yn y Gerlan. Gobeithio y bydd y ddau ohonoch yn hapus iawn yma.

**Gwasanaeth allweddol**
Mewn cyfnod lle nad yw gofal iechyd erioed wedi bod mor bwysig yn ein hanes, ac yn amser lle rydan ni mor falch o'r gweithlu, hoffwn longyfarch Dave Roberts o Giltwllan sydd wedi gweithio i'r GIC ers 30 mlynedd mis yma. Dechreuodd yng Nghaernarfon fel swyddog cofrestru yn delio efo trosglwyddo cofnodion meddygol cleifion a delio efo nodiadau ysbyty ayb. Wedyn aeth i'r adran gyllid – talu biliau i bob practis yng Ngogledd Cymru. Bu'n gweithio i'r adran Gofal Sylfaenol (meddygon, offthalmyddion ayb.) am dros 25 mlynedd ac erbyn hyn mae'n gweithio fel Swyddog Gwybodaeth Cancer Macmillan i Ysbyty Gwynedd. Diolch iti am dy waith, Dave.

**Colled**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mair Jones (Mair Siop) a fu farw ddiwedd mis Chwefror. Er bod y rhan fwyaf ohonom yn cofio Mair fel rhywun oedd yn byw ar y Stryd ac yn ddiweddarach ar Ffordd Bangor, un o'r Gwernydd oedd hi'n wreiddiol ac yn falch iawn o hynny. 'Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda John ei gŵr a'i mab Ian.

**Amser anodd i bawb**
Er ein bod yn mynd trwy un o'r amseroedd mwyaf dyrys yn ein profiad ar hyn o bryd, mae gweld cymdeithas yn dod at ei gilydd i helpu ei gilydd yn codi calon ac yn rhoi gobaith i ni i gyd. Diolch i bawb am fod mor garedig a meddylgar efo'i gilydd. Mae mor hyfryd gweld yr enfysau o gwmpas y pentref ac yn ffenestri'r tai. Diolch, bawb, am roi 'chydig o oleuni a gobaith yn ein bywydau. Daw eto haul ar fryn ☺.

Os oes unrhyw un angen cefnogaeth o gwbl yn ystod y cyfnod anodd yma, boed yn sgwrs, siopa neu gymwynas o unrhyw fath, mae croeso i chi gysylltu gyda mi ar un o'r rhifau uchod, trwy e-bost (carenelaine@hotmail.com) neu'r gwefannau cymdeithasol, ac fe drefnaf eich bod yn cael yr help sydd ei angen arnoch.

Mae Caban Gerlan hefyd yn ceisio chwarae ei ran yn ystod yr amser anodd yma ac yn cynnig llety i weithwyr iechyd sydd ei angen. Os oes unrhyw un angen gwybodaeth bellach, mae croeso i chi gysylltu efo fi.

Cadwch yn ddiogel, bawb.

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Eglwys St. Ann a St. Mair**
Mae'r eglwys, neu yn hytrach yr adeilad, ar gau ar hyn o bryd ond mae modd cael gwybodaeth gan y Wardeiniaid sef: Janet Williams (600434), Stephen Thompson (601418) a Peter Price (601199) neu ffoniwch unrhyw un o'r aelodau am sgwrs. Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd a chofiwn am yr holl feddygon, nyrsys a gofalwyr sy'n gofalu amdanynt.

**www.llaisogwan.com**
**@Llais_Ogwan**

# Cofnod ar Lechen

Pan oedd Claire Evans, Tan y Graig (sydd wrth ymyl capel Jerwsalem ym Methesda), yn nôl hen lechi o'r ardd er mwyn paentio arnyn nhw, sylwodd fod rhywun wedi ysgythru ar wyneb un – ffurf calon ac o'i mewn y geiriau 'Diwigiad 1904 yn Cymru'. Aeth Claire Evans i chwilio'r we i gael peth o hanes Diwygiad 1904-1905, sef y cyffro crefyddol a ysgubodd drwy Gymru am ddwy flynedd ddechrau'r ganrif ddiwethaf gyda nifer fawr o unigolion yn cael tröedigaeth – cyffro a gysylltir â'r pregethwr Evan Roberts yn fwyaf arbennig. Canfu Claire Evans fod y Parch. Joseph Jenkins wedi dod i bregethu yng nghapel Jerwsalem ar yr 22ain o Ragfyr, 1904. Roedd Joseph Jenkins, gweinidog efo'r Methodistiaid yng Nghei Newydd, Ceredigion, yn un o arweinwyr y Diwygiad.



Dyma'r cefndir. Yn Rhagfyr 1904 fe aeth Joseph Jenkins ar daith bregethu am dri mis i'r gogledd. Bendithiwyd oedfaon mewn capeli mewn nifer o ardaloedd, gan gynnwys Amlwch, Llangefni, Llannerchymedd, Talysarn, Llanllyfni, Dinbych, Llanrwst, Dinorwig a Bethesda. Pregethwyd hefyd i fyfyrwyr Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Ond digwyddodd y "fendith" fwyaf ym Methesda. Yn ôl un arall o arweinwyr y Diwygiad, y Parch. J. T. Job, roedd yr oedfa a gafwyd yng nghapel Jerwsalem ar yr 22ain o Ragfyr 1904 'yn gorwynt'. Bu gweddïo yno am awr cyn i'r Parch. Joseph Jenkins gyrraedd, ac ugain munud i mewn i'w bregeth fe ffrwydrodd y dorf fawr mewn gorfoledd – dynion yn gweiddi rhannau o emynau a phobl yn codi o'u seddau a symud eu cyrff yn llawn cyffro gan chwifio'u breichiau.

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Colli Eira**

Sioc enfawr i ardal gyfan oedd clywed am farwolaeth frawychus o sydyn Mrs Eira Wyn Hughes, yn ei chartref, Awel y Nant, 29 Ffordd Ffrydlas ar fore Sadwrn, 22 Chwefror.

'Roedd yn 74 mlwydd oed, yn briod ffyddlon i Joe, yn fam annwyl i Angharad, ac yn nain hoffus i Joshua. Bu Eira yn aelod adnabyddus a phoblogaidd o'r gymuned yn Nyffryn Ogwen ers blynyddoedd lawer, a chanddi lu o ffrindiau o ganlyniad i'w chymeriad hynaws â'i chefnogaeth i wahanol achosion yn y fro. (Medrwch ddarllen am ei ffyddlondeb â'i gweithgarwch yn adroddiad Capel Carmel yn newyddion Rachub a Llanllechid.)

Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor bnawn Llun, 9 Mawrth dan arweiniad ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard, gyda'r Parchedigion Dafydd Coetmor Williams a Geraint Hughes yn cynorthwyo. 'Roedd y ffaith fod yr Amlosgfa yn orlawn yn dystiolaeth amlwg o'r parch oedd yn bodoli tuag at Eira, a hefyd tuag at Joe a'r teulu.

Anfonwn ninnau ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu oll yn eu profedigaeth

**Diolch**

Dymuna teulu'r ddiweddar Margaret Hughes, 4 Ffrancon View, Coed y Parc ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt ar ôl colli mam a nain annwyl. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd – cyfanswm o £686 – tuag at Ward 8, Ysbyty Plant Birmingham, lle gafodd ei hŵyr, Morgan, ei ddau drawsblaniad iau. Diolch i'r Parchg Ddr. Huw John Hughes a'r Ymgymerwr Gareth Williams am eu gwasanaeth tyner a thrylwyr a hefyd i Carys O'Connor am ei gwaith wrth yr organ.

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

**© Dr J. Elwyn Hughes**



**Pwt neu Ddau**

Unwaith eto, mae'n rhaid i mi ymddiheuro am fethu parhau efo rhan olaf hanes y Cwrs Golff yn Nant Ffrancon ond addawaf ddŵad yn ôl at hynny pan fydd amgylchiadau dyrys a phryderus y pandemig presennol wedi diflannu.

Felly, rhyw damaid i aros pryd sydd gen i y tro hwn a hynny ar ffurf dyrnaid o gerddi sydd yn siŵr o apelio at rai o ddarllenwyr *Llais Ogwan* (fel y gwna cerddi celfydd Dafydd Morris a Dr Goronwy Owen yn 'Nyth y Gân' bob mis).

Dechreuaf gyda dau englyn cydymdeimlad, y cyntaf gan y Prifardd Dic Jones a'r ail gan **Dîm y Bala yng nghystadleuaeth Ymryson y Beirdd**:

Am dy alar, galaraf, – oherwydd
Dy hiraeth hiraethaf;
Yn fy enaid, griddfannaf
Drosot ti, a chyd-dristâf.

Er yn onest ymestyn – ein dwylo
I dawelu deigryn,
Yn y rhwyg, ni ŵyr yr un
Alar yr unigolyn.

'Wn i ddim pwy oedd awdur y pennill a ganlyn ond clywais iddo gael ei lunio gan ddyn oedd mewn gwth o oedran ac wedi colli wyres fechan ym mlodau'i dyddiau. Dyma sut y mynegodd ei deimladau yn ei brofedigaeth fawr:

Mor anodd ydyw deall
Rhagluniaeth faith ein Duw —
Yn cadw'r pren sy'n crino
A thorri'r blodyn byw!

A dyma fardd arall (eto'n anhysbys) yn deud ei ddeud ynglŷn â sut yr oedd o'n gweld cyflwr ein cymdeithas a'n byd:

Dyma pam mae'r byd yn gam
A phawb mor anghytûn,
Mae'r naill yn chwynnu chwyn y llall
Heb weld ei chwyn ei hun!

Addasiad cryno o gerdd go hir gan R. H. Jones ydi'r 'pennill' bach nesa' ac efallai y bydd ambell un yn cofio'r gerdd wreiddiol ar ôl ei dysgu yn yr ysgol ers talwm;

Rhanna dy **wên a rhanna dy gariad,**
A rhanna hefyd dy gydymdeimlad;
Rhyw nefoedd wael yw nefoedd dyn
Sy'n cadw'r nefoedd iddo'i hun!

A dof â'r cyfraniad byr hwn i ben gydag englyn â'r teitl 'Milltir' sydd, yn fy marn i, ymhlith yr englynion gorau a ysgrifennwyd erioed. A'r awdur? Un o'n 'hogia ni', sef y Prifardd Ieuan Wyn.

Unwaith a mi'n llawn ynni – byr ydoedd
I lanc brwd a heini;
Mae'r llanc yn hen eleni
A hir yw milltir i mi.

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* *Pwllheli (01758) 703000)*

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mawrth cynhaliwyd cyfarfod o Fforwm Merched Llafur Arfon, yn bennaf i drafod cynnig ar gyfer Cynhadledd Llafur Cymru.

Yn ddiweddarach, cynhaliwyd demo yng Nghaernarfon yn erbyn deng mlynedd o lymder y Toriaid.

Yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod pob-aelod o Blaid Lafur Arfon i wrando ar araith gan Andy Dunbobbin (Ymgeisydd Llafur ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau), gyda chyfle i i ofyn cwestiynau a mynegi barn. Hefyd, trafodwyd cynigion ar gyfer Cynhadledd Llafur Cymru e.e. cynnig i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Blaid Lafur yng Nghymru.

Canslwyd y cyfarfod cangen a oedd i fod tua diwedd y mis (a'r bore coffi) oherwydd y coronafeirws.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

# Meddai Syr Ifor

Syr Ifor Williams oedd un o bennaf ysgolheigion Cymru a hogyn o Dregarth oedd o. Yr oedd ystyr enwau, ac enwau lleoedd yn arbennig, yn bynciau o gryn ddiddordeb iddo, ac yn wir *Enwau Lleoedd* a roddodd yn deitl i un o'r llyfrau mwyaf diddorol a ysgrifennodd. Yn y gyfrol mae'n sylwi ar tua ugain o enwau sy'n perthyn yn benodol i ardal Dyffryn Ogwen, ac felly beth gwell na manylu ar y modd y mae'n egluro tarddiad ac ystyr rhai o'r enwau hyn. Ond cyn cychwyn, yn ei bennod gyntaf yn y llyfr dan y teitl Rhybudd, mae'n dyfynnu sylw ei hen athro yn y coleg, Syr John Morris Jones: "Fydd 'na neb ond ffyliaid yn treio esbonio enwau lleoedd!"

Gwell dechrau am fynydd a bryn sef pwnc ei ail bennod yn y llyfr.

**Carnedd Dafydd a Charnedd Llywelyn** – y carneddau yn cyfeirio at feddfeini cerrig ar y copaon sy'n nodi yn wreiddiol feddau arwyr o gyfnodau cyn-hanes ond mewn cyfnod diweddarach a fabwysiadodd enwau dau o dywysogion Cymru.

**Y Glyder Fawr a'r Glyder Fach** – *cludair* yw'r ffurf gywir, ac ystyr *cludair* yw pentwr o gerrig wedi eu casglu ar y copa naill ai yn naturiol neu i ffurfio carnedd gladdu.

**Tryfan** – nid tri-faen mo'r esboniad ond yn hytrach perthyn dau gymal i'r enw. Yr elfen gyntaf yw *try* sef elfen sy'n cryfhau (fel yn 'tryloyw' – gloyw iawn), a'r ail elfen *bann* yn golygu 'pwynt, pig, corn'. Felly mynydd yn codi yn uchel iawn gyda chopa main iddo yw Tryfan.

**Y Gyrn** – gall darddu o'r hen air *curn* sy'n golygu 'pentwr, pyramid' neu efallai o'r enw *corn* sy'n golygu pigwrn.

**Moel Faban a Moel Grach** – mae *moel* gydag ansoddair treigledig, megis yn y ddwy enghraifft yma, yn golygu bryn, ac nid *moe*l yn yr ystyr o fod yn noeth megis o ben dyn heb wallt. Ond ychwanega'r awdur, wrth ystyried enw Moel Wnion, y gall *moel* olygu pen crwn i fynydd a dyna ddisgrifio'r copa uwchben Llanllechid.

**Y Drosgl** – yr ansoddair *trwsgl* yw tarddiad yr enw. Ystyr trwsgl i ni heddiw ydi afrosgo ond golygai'r hen enw fod iddo ystyr garw neu anhrefn yn ogystal. Ac ym mhlwyf Llanllechid gwelir y gwrthgyferbyniad rhwng y Drosgl (garw) ar un ochr i afon Ffrydlas yng Ngweuncwysmai a Llefn (llyfn) ar ochr arall y dyffryn.

**Eryri** – ystyr *eryr* yn ei hanfod yw codiad tir. Yr enw ar y clefyd sy'n peri wrymiau ar y cnawd yw eryr, ac mae'r enw 'eryri' yn gweddu i ddisgrifio'r codiadau tir sy'n ffurfio ucheldir Gwynedd.

**Y Bera Mawr a'r Bera Bach** – gall 'bera' fod yn enw aderyn ysglyfaethus fel barcud. Mae 'bera' hefyd yn enw ar fwdwl o ŷd neu wair, a gallai gyfeirio at ffurf y creigiau sydd ar y ddau gopa.

**Nant y Benglog** – penglog yw asgwrn caled y pen ond gall *clog* hefyd olygu craig neu faen carreg. Tybed felly mai'r Benglog yw'r maen mawr yn Llyn Ogwen sydd ar drothwy Nant y Benglog, ond gall hefyd gyfeirio at y maen fel ar ffurf penglog ddynol yn ogystal.

**Gerlan** – enw cyfansawdd o *cerdd* a *glan*, y ddau yn golygu codiad tir. Troes Gerddlan, felly, yn Gerlan o fod yn colli'r *dd* yn y canol.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

www.llaisogwan.com
@Llais_Ogwen



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon
CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:
Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williamshy@parliament.uk

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
✆ 07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

# William Griffith, Hen Barc

Mae William Griffith yn adnabyddus i drigolion Dyffryn Ogwen fel awdur y gân 'Defaid William Morgan' a anfarwolwyd gan Hogia Llandegai. Yr oedd yn fardd toreithiog a chyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth. Un ohonynt sydd yn fy meddiant i, sef *Byr a Phert* (1928): ac felly cyfyngaf fy sylwadau gwerthfawrogol i'r gyfrol hon yn unig. Mae yn y gyfrol oddeutu 248 o englynion, rhyw hanner dwsin o gerddi rhydd, ac un cywydd sef 'Cywydd i'r Gwynt'.

Bardd gwlad oedd William Griffith, a themâu ei ganu, yn fras, yw cerddi i wrthrychau byd Natur, cerddi i'r bobl a adnabu yn dda, eu cryfderau a'u gwendidau, a cherddi i wrthrychau byw-bob-dydd. Mae'r cerddi Natur yn amrywio o englyn i'r 'Gwyfyn' a'r 'Brithyll' ar y naill law, ac i'r 'Wylan' a'r 'Golomen' ar y llall. Englynion da eraill yw'r rhai i 'Blu'r Gweunydd' a 'Blodau'r Eithin'. Meddai William Griffith ar y ddawn brin i sylwi ar briodoleddau neilltuol ei wrthrychau, a cheir yn ei englyn i'r 'Gwyfyn', er enghraifft, elfen o ddireidi:

Er gofid bwyty'r gwyfyn – ein dillad
Yn dyllau bob cerpyn;
Os y daw i ysu dyn,
'E frath yn is na'i frethyn.

Yr hyn a olygir yn llinell olaf yr esgyll yw 'brathu' neu 'gnoi' cnawd dyn yn y bedd! Gallai ganu'n afaelgar i fis Tachwedd a'i gysylltu'n drawiadol â marwolaeth dyn. Mae cymryd 'gaeaf' i gyfleu marwoldeb dyn yn thema oesol gan ein beirdd.

Mis di-raen, mis di-rinwedd, - llwyd ei wisg
Mwll di-haul yw Tachwedd;
Mis gwynnu maes ac annedd,
Mis caddug, barrug a bedd.





7 Hen-barc, Bethesda.




Y mae ei englynion i wrthrychau natur, i adar ac anifeiliaid a lleoedd fel 'Ynys Enlli' a 'Rhaeadr (Aber)' yn dangos y ddawn ddarluniol sydd ganddo a'i fod wedi myfyrio arnynt cyn sylwi ar eu priodoleddau naturiol.

Yr un mor sylwgar yw ei gerddi i'w gymdeithas, a dangosant i ba raddau yr oedd wedi myfyrio ar fyd pobl. Yr oedd yn 'adnabod' ei bobl yn dda iawn. Pwy na allai gytuno ag o yn y darlun hwn o wraig 'ystreullyd'?:

Celwyddog, gweflog, aflan, - a hynod
Am hanes o bobman;
A'i thŷ o'r rhiniog i'w thân
Yn fudr gan y foedan.

Roedd yn amlwg wedi pwyso a mesur rhinweddau Cristnogol 'cymydog' yn y ddau englyn crefftus a ganlyn:

Gŵr a wêl frawd mewn gelyn, - i'w gyni
Rhy geiniog rhag newyn;
Tyr ei dorth, rhy gôt i'r dyn
Di-foethau, llwyd ei fwthyn.

Waeth pwy, - câr gynorthwyo, - â'i law dde
Pan wêl ddyn ar suddo;
Fe red ef i'w wared o,
Ni châr edrych ar rywdro.

Mae ei englyn i'r 'Aelod Seneddol' yn mynegi gobaith ac ymddiriedaeth cymdeithas dlawd yn ei chynrychiolwyr gwleidyddol yn y cyfnod:

Aelod sy'n cynrychioli – ein syniad
Mewn Senedd a'i noddi;
Cais ryddhau ein hawliau ni,
Hwn yw cennad ein cyni.

Mae ei englynion sy'n coffáu'r meirw yn dangos yn deg fel yr oedd wedi adnabod y bobl hyn am yr hyn oeddent, ac roedd yn ddiffuant yn gweld eu colli, a'r golled trwy estyniad i'r gymdeithas y buont yn rhan ohoni.

Gwrthrychau cyffredin bywyd beunyddiol yw testunau englynion eraill, megis y rheini i'r 'Llyfr', 'Crud', 'Y Gannwyll', 'Modrwy', 'Cloc'. Roedd ganddo ryw olwg 'newydd' ar y gwrthrychau hyn hefyd. Dyma englyn cellweirus i'r 'Pethau ddymunwn gael at y gaeaf':

Arian i brynu 'sana, - dwy esgid
Ysgafn, tew eu gwadna',
A het ddel a thopcôt dda,
Dwsin o ddillad isa'.

Mae'r englynion hyn hefyd yn dangos ei sylwgarwch a'r myfyrio ar werth a defnyddioldeb peth fel 'cloc' i fywyd beunyddiol.

Ond dyna ddigon o ddyfyniadau, mi dybiaf, i ddangos bardd mor ddifyr oedd William Griffith mewn gwirionedd. Perthynai mwy iddo na dim ond smaldod fel 'Defaid William Morgan'!

**Goronwy Wyn Owen**

(Daw'r lluniau o'r gyfrol *Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen* gyda chaniatâd y golygydd, Dr J. Elwyn Hughes.)

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

# Ymgyrch Casglu Enwau Dyffryn Ogwen

**Pleser arbennig oedd gweld cynulleidfa frwdfrydig yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn 29ain o Chwefror eleni i ddathlu llwyddiant yr ymgyrch o gasglu enwau ein hardal.**

Cychwynnodd y prosiect ym mis Chwefror 2018 pan ddaeth llu o unigolion gwybodus i Neuadd Ogwen i gofnodi enwau caeau, pyllau afonydd, chwareli, safleoedd diwydiannol, strydoedd, tai, ffermydd a thyddynnod, yn ogystal â hynodrwydd enwau creigiau, pantiau a chribau ym mynydd-dir ein hardal. Y cam nesaf oedd ceisio llenwi rhai o'r bylchau a oedd yn y gofnod ac yn fwyaf arbennig canolbwyntio ar enwau cyfredol y caeau. Llwyddiant ymgyrch y caeau a ddathlwyd yn Neuadd Ogwen eleni wrth i'r prosiect ddod i'w derfyn yn dilyn nodi dros fil o enwau ar gofnod cenedlaethol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Er mwyn pwrcasu mapiau a threfnu'r cyfarfodydd, derbyniodd y prosiect nawdd ariannol gan y Gymdeithas, rhan o gymhorthdal Cronfa Treftadaeth y Loteri, ac mae'n bleser cael diolch i Rhian Parry, Ifor Williams a Hywel Wyn Owen am eu cefnogaeth a'u hymroddiad i'r prosiect. Cydlynydd y prosiect yn Nyffryn Ogwen oedd John Ll. Williams, a bu'n hynod brysur yn cyfarwyddo'r gwaith gan lunio taflenni a mapiau pwrpasol, a dosrannu'r ardal gan drefnu grŵp o gysylltwyr lleol i ymweld â ffermwyr y fro.

Rhannwyd y cyfarfod yn ddau sesiwn gyda chyfle am baned a sgwrs ar y canol. Yn y rhan gyntaf, dan ofal Rhian Parry ac Ifor Williams, cafwyd cyflwyniad i gefndir y prosiect ac i waith y Gymdeithas led-led Cymru yn cofnodi enwau lleoedd ein bröydd. Nodwyd ymgyrchoedd yn casglu enwau pyllau afon Teifi, yn cofnodi enwau arfordir Ynys Môn, enwau diwydiannol Glyn Ebwy ac enwau brodorol gweundiroedd yr Hafren rhwng Casnewydd a Chaerdydd. Mae'r holl enwau hyn yn cael eu cofnodi, fel rhai Dyffryn Ogwen, ar fas data y Gymdeithas. Cyfres o ddotiau ar fap, oren i gae, glas i ddŵr ac yn y blaen, sydd yn bodoli ar y bas data yn bresennol hyd oni chaiff ei gyhoeddi yn y dyfodol agos. Bryd hynny gall pawb o'i ddefnyddio chwilio i'w ddewis arbennig ei hun, fel bod gan Owen yng Nglan Môr Isaf, Dafydd yng Nghoetmor, a Gwyneth yng Ngwaun Gwiail, er enghraifft, y modd i holi am enw pob cae a thwlc ar eu heiddo. Yn y cyswllt hwn, rhaid diolch i Irene Williams, Meifod, a gyfrannodd y gwaith llafurus o gofnodi'r holl fil o enwau saith gwaith drosodd, yn ôl y gofyn i fas data'r Gymdeithas.

Yn yr ail sesiwn, dan ofal Hywel Wyn Owen, cafwyd cyflwyniad i enw pump cae



arbennig yn ein hardal. Dewis Ieuan Wyn oedd trafod Waun Fflogyn yng Ngwern Gof Isaf yn Nant y Benglog, enw sy'n tarddu o enw'r aderyn prin bellach yn ein bröydd ni, sef y cyffylog (*woodcock*). Cae'r Deintur oedd gan Thelma Morris, enw ar gae yng nghartref ei phlentyndod yn y Pandy ar Waun Pandy yn Nhregarth. Swyddogaeth y pandy oedd pannu gwlân pryd ar derfyn y broses rhoddid y gwlân allan i'r haul i'w sychu ar fframiau'r dentur i'w atal rhag crebachu. O'r Saesneg *tenter-hooks* mae'r enw 'dentur' felly yn tarddu. I Gae Masant Llwyd, ger Fferm Castell ym Mhentir, yr aeth Cynrig Hughes. Canfu ef o'i ymchwil mai o'r enw 'pasant' y daw 'masant' ac mai ei ystyr yw meistr ar ganu'r crwth. Ceir enghreifftiau ohono yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* mae *pasant* yn cael ei ddiffinio fel enw ar un o feistri traddodiadol y crwth (fel patrwm o gerddor), fel teitl. Mae'n debyg mai Llwyd oedd enw neu ran o enw crythor a fu'n diddanu gwesteion yn hen blasty diflanedig Plas Pentir gerllaw.

Maes awyr o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf oedd testun Gwynfor Ellis. Ar Gae'r Ffens Lechi yng Nglan Môr Isaf, ar lan y Fenai, sefydlwyd yr awyrborth i hedfan awyrennau i hela llongau tanfor yr Almaenwyr a oedd yn bygwth arfordir Cymru yn ystod y rhyfel. Ychwanegodd Gwynfor, wrth gyfeirio at frwydro, mai ar dir Y Wig heb fod nepell i ffwrdd yr ymladdwyd brwydr y Dalar Hir yn 1648 rhwng lluoedd y Brenhinwyr a'r Seneddwyr, ac yno dywedir y claddwyd mintai fawr o'r milwyr a fu farw. Cyfraniad John Ll. Williams, yr olaf i siarad, oedd Cae Gwilym Ddu, tyddyn sydd bellach yn dwyn yr enw Tan yr Allt ar iseldir plwyf Llanllechid ger Tai'r Meibion. Yr enw dan drafodaeth oedd Buarth y Garnedd, cae a berthynai'n wreiddiol i'r hen dyddyn. Awgrymir fod gan y buarth gysylltiad uniongyrchol ag amgylchiad a ddigwyddodd ym mis Mai 1230 pryd y crogwyd William de Breos – Gwilym Brewys neu Gwilym Ddu i'r Cymry - gan y Tywysog Llywelyn Fawr, ac mai yma yn y buarth hwn y rhoddwyd ei gorff i'w gladdu.

Prif amcan y cyfarfod oedd talu diolch i'r holl gofnodwyr gwirfoddol a gymerodd ran yn casglu enwau'r prosiect, ac yn fwyaf arbennig i gyfleu gwerthfawrogiad y Gymdeithas i holl ffermwyr Dyffryn Ogwen a fu mor gydweithredol a pharod yn cyfrannu o'u hamser a'u gwybodaeth. Ar yr olwg gyntaf nid oes dim yn anghyffredin yn y cofnod a gasglwyd – enwau dinod, ailadroddus, megis 'cae tan beudy', neu 'buarth yr ŵyn' a 'gweirglodd' - ond maent oll yn ddrych i etifeddiaeth a threftadaeth ein bro. Ac yn y byd sydd ohoni mae'r broses o golli enwau ac o freuo'r iaith Gymraeg yn digwydd heb i ni sylweddoli, ac mae cymeriad ein hardal yn newid ac yn llithro i ddifancoll oni chaiff ei gofnodi a'i goleddu. Ymgais i warchod ein treftadaeth rhag y *Donkey Paddock*, y *Pinfold Cottage* a'r *Enchanted Forge* oedd o anghenraid yn gyrru'r prosiect gwerthfawr hwn.



# Nyth y Gân

**Y Lloffwyr**
(paentiad gan Millet)
Tair hynod o blith tlodion a welir
Mor wylaidd â'r lloffion
A ddeilliodd o weddillion
Yno hyd yr helfa hon.



'Y Lloffwyr' gan Millet

**Blagur Cynnar**
Gorwedd y bu'r blaguryn yn rheidus
Ar hyd ddechrau'r flwyddyn;
Yn ei risg yr amser hyn
Un bregus oedd y brigyn.

**Nyth y Frân**
Yn gadarn hi a gododd waliau tŷ
Fel tae'n bensaer rywfodd;
Mor gymhleth hi a blethodd
Frigau cloi a'u rhoi yn rhodd.

**Yr Hen Adeilad**
Yn wylaidd mae'r hen aelwyd yn aros
O'r muriau a chwalwyd;
Y glaw a'r gwynt a glywyd
Mewn lle rhwng y meini llwyd.

**Y Llwybr Troed**
(Tan y Bryn, Parc Moch)

Drwy'r coed yn araf droedio yr af i
I'r fan gan fyfyrio;
Ar ei hyd y bu rhodio
Yno fel hyn er cyn co'.

**Cymdeithas Glòs**
Darlun cyffredin a hynny drwy'r wlad
Oedd gweled teuluoedd yn cael mawr fwynhad
O eistedd â'i gilydd o flaen tanllwyth o dân
Gan wrando ar y radio yn rhoi ambell gân.

Storïau y diwrnod a lithrai yn rhydd
I'w rhannu â'i gilydd ar ddiwedd y dydd,
A rhai ddôi â deigryn i lygaid y plant
A redai mor ysgafn â dyfroedd y nant.

Mor glòs y gymdeithas fodolai'r pryd hyn,
Yn brin iawn ei cheiniog ac eto mor dynn,
Ond addysg a roddwyd i holl blant y plwy',
A gwella eu safon o'r llyfr wnaethant hwy.

Arferion y teulu sy'n newid bob dydd,
A'r ifanc yn mynnu cael bod yn fwy rhydd,
Ond a oes anghofio cymdogaeth a'i gwerth
A'r parch at ei gilydd a roes iddi nerth?

**Dafydd Morris**

* * *

**Y Gog**
I'n gwlad daw'r gog i glwydo – â'i deunod
Mor dyner, ond eto
Daw ar sgawt i daer sgwatio
A dodwy'r wy ar slei dro.



**Misoedd y Gwanwyn**
Daeth yn lli y geni gwyn,
I'w gynnydd daeth y gwanwyn;
Misoedd di-gwsg i'r meysydd
A'r fro yn deffro drwy'r gwŷdd.
I dir cyni daw'r cynnydd
A swyn dawns yn hoen y dydd,
A'r ddawns drwy'r gerddi a'r ddôl
Yn newydd o egnïol.
Yn wyrdd byw a hardd o bur
Agor ar frig mae'r blagur;
Hen arfer yn cynhyrfu,
Yn cadw oed mewn coed cu.
I'n gwlad daw galwad y gog,
I hudol fro odidog.

**Gras Duw**
Ei Ras sydd mor ddi-ddryswch, – yn denu,
Yn ein dwyn i'w heddwch,
A'i ddawn yw rhoi diddanwch
Yn llawn i dlodion y llwch.

**Y Gwanwyn**
(ar ôl gwrando ar 'Defod y Gwanwyn' gan Igor Stravinsky)

Ag ynni daeth y gwanwyn – yn gariad
Di-gerydd ac addfwyn,
A dod yn swil gyda'i swyn
Yn fore at y forwyn.

**Dioddefaint Crist**
Yn Ei angau mor ingol, – yn Ei waed,
Yn Ei wae arteithiol,
Yr Iesu â'i law rasol
Ddaw â ni at Dduw yn ôl.

**Goronwy Wyn Owen**

## Marchnad Ogwen

A dyma ninnau – fel miloedd eraill – yn gorfod cadw at y rheolau a chau'r Farchnad dros dro. Nid oes sicrwydd pryd y byddwn yn gallu ailddechrau ar hyn o bryd. Gan fod Sioe Dyffryn Ogwen wedi ei chanslo, ni fyddwn yn ein pabell ar y cae wrth gwrs. Bydd gwybodaeth ar ein tudalen facebook ac ar ein gwefan **www.marchnadogwen.co.uk**

Cadwch yn saff i gyd ac edrychwn ymlaen i weld pawb pan fydd yr helynt mawr yma drosodd.

## Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Capel Shiloh**
***Adre o'r Ysbyty***
Croeso adre i Dennis Vaughan Griffiths, Rachub wedi cyfnod mewn Cartref Gofal. Mor dda clywed eich bod wedi gwella'n ddigon da i ddod yn ôl i'ch cartref.

***Ysbyty Eryri***
Mae Noreen Jones, Adwy'r Nant, Bethesda bellach wedi cael ei symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri. Pob dymuniad da i chi a brysiwch wella.

***Bedydd***
Pnawn Sul, Mawrth 15 yng ngofal y Parchedig Richard Gillion bu bedydd Ifan Llyr, sef mab Rhian a Keith Williams, 2 Ffrwd Galed, Tregarth, a brawd bach Hari Gwilym. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

***Amser gwell i ddod***
Oes, mae amser gwell i ddod dwi'n siŵr. Ond yn y cyfamser cymerwch bwyll, cadw yn ddiogel a mwynhau bod adre. Mae ein meddyliau ni i gyd gyda rhai sydd yn dioddef ar hyn o bryd.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

**Modurdy Central**

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth

Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎601031

**SAMARIAID**

Mae Llinell Gymraeg

**0808 164 0123**

ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm



**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

**Owen's** Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat a Bws Mini*



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

**MODURON PANDY Cyf.**

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

**JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.**

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
**01248 601754**
07770 568743 (symudol)

CITB



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

**Byddwn yn ailgydio yn y drefn ar ôl i'r feirws fynd heibio.**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

**PEN Y CEUNANT ISAF**

Y BWTHYN TÉ
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW

01286 872 606



# Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Y mis yma, gyda'r clefyd coronafeirws dychrynllyd presennol yn caethiwo'r mwyafrif i'w cartrefi a'r golofn hon yn gorfod ymddangos ar ffurf ddigidol yn unig, dyma gyfle i edrych dros rai o uchafbwyntiau'r blynyddoedd diwethaf.

Mae'r côr wedi cyflawni llawer ers i ni groesawu Owain Arwel Davies fel arweinydd. Roedd o'n gôr adnabyddus i lawer trwy Gymru ers blynyddoedd ond daeth egni a brwdfrydedd gwaed newydd ifanc i mewn i'r côr gyda phenodiad Arwel. Llwyddwyd i ddenu criw o bobl ifanc o Ysgol Tryfan a thu hwnt a daeth galwadau o'r newydd arnom i ganu mewn lleoedd mor amrywiol â Vermont, Efrog Newydd, Chicago, Caerefrog a Beverley.

Wedyn, cafwyd gwahoddiad i ganu gyda'r grŵp gwerin Cymraeg o'r Gerlan - 9Bach - yn Theatr Bryn Terfel cyn cael mynd i Gaerdydd i berfformio gyda'r grŵp yn Theatr y Mileniwm i lawr yn y Bae. Meddai Walter Williams sy'n canu gyda'r ail denoriaid, *"Mae taith i Gaerdydd yn brofiad dwi'n ei fwynhau'n fawr gan i mi dreulio sawl diwrnod yno mewn cyfarfodydd marcio Mathemateg ac mae gen i chwaer yn byw yn y cyffiniau."* Ychwanegodd, *"Bydd hwn yn brofiad gwahanol iawn gan mai canu y tu ôl i len y byddwn ni ond yn ôl tystiolaeth y gynulleidfa yn Pontio bydd y derbyniad yn un ysgubol."*



**Lisa Jên a Martin Hoyland o'r grŵp gwerin 9 BACH yn perfformio yn Rough Trade, Llundain**

**Teledu, CD, Band Pres a mwy.**

Ymddangosodd y côr ar y teledu gyda sawl enw amlwg megis Al Murray, Alan Titchmarsh yn yr Antiques Roadshow a Paul Martin o Flog It. Yn yr un cyfnod cafodd y côr rannu llwyfan gyda Mike Peters a grwpiau eraill yn y sioeau mawr a gynhaliwyd ger gorsaf isaf y Wifren Wib yn Chwarel Y Penrhyn. O dipyn i beth lledaenodd parodrwydd y côr i ganu mewn unrhyw amgylchiad ac o dan amodau digon heriol weithiau. Llwyddwyd i wneud hyn oll ynghanol rhaglen lawn o gyngherddau yn Llandudno, Henllys, Betws y Coed, Pwllheli, ac wrth gwrs yn Lleol ym Methesda a Bangor. Daethpwyd â CD newydd o ganeuon allan yn 2019 sef 'Gwlad, Gwlad' gyda Band Black Dyke o Swydd Efrog yn cyfeilio i ni yn 'Tiroedd Ein Cof.' Darn oedd hwnnw a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y côr gan y Prifardd Ieuan Wyn a'r gerddoriaeth gan y Dr Owain Llwyd, fel rhan o gomisiwn er cof am y diweddar Tom Morgan. Dywedodd Alun Davies, Swyddog Technegol y côr, ei fod wedi gwirioni ar safon recordiad y CD gan mai dyma'r tro cyntaf i'r côr fentro i gynhyrchu un ar ei liwt ei hun. *"Mi ddaru ni ddysgu llawer yn sydyn iawn am gymysgu sain, purdeb y recordio a chadw at ganllawiau cynhyrchu,"* meddai Alun.

**Achosion da a grŵp byd-enwog**

Mae'r côr wedi gwneud ei ran i godi arian ac i gefnogi nifer fawr o elusennau dros y blynyddoedd gan gynnwys Cancr, Yr Ambiwlans Awyr a Motor Niwron heb sôn am achosion da lleol pan oedd unigolion a theuluoedd angen cefnogaeth i dderbyn triniaeth mewn gwahanol leoedd. Bu'r côr yn amlwg yng Nghadeirlan Bangor ac mewn lleoedd eraill pan oedd angen cefnogaeth ar achosion da.

Daeth yr enwogrwydd i'w uchafbwynt pan ofynnodd Damon Albarn o'r grŵp byd-enwog 'The Good, the Bad and the Queen' i ni berfformio gydag ef ar ei CD. Bu'r côr yng Nghastell Penrhyn yn recordio darnau cefndir i sawl cân o'i eiddo a derbyniodd cyfraniad y côr ganmoliaeth uchel gan aelodau'r grŵp a chan feirniaid miwsig modern y byd pop. Nid dyna ddiwedd y stori anhygoel hon wrth gwrs, oherwydd yn sgil llwyddiant byd-eang y CD cafwyd gwahoddiad i ganu gyda'r grŵp yn theatr pier y gogledd yn Blackpool. Dilynwyd hynny gan y Palladium byd-enwog, ac yn Somerset House ym mhrifddinas Lloegr. Yn goron ar y cyfan cafodd y côr ymddangos ar un o lwyfannau mawr Glastonbury yng Ngwlad yr Haf o flaen tyrfa o filoedd. *"Dyna i chi brofiad oedd hwnnw,"* oedd ymateb sawl aelod o'r côr.

Oes yna unrhyw gôr meibion yn rhywle wedi ennill y fath enwogrwydd?

# Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn.**

**Be' ydy dy enw llawn?**
Islwyn Meredydd Owen.
**Oed?** 61.
**Gwaith** Adeiladwr.
**Lle wyt ti'n byw?** Yn Y Felinheli.
**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Wedi fy ngeni a fy magu yn Y Felinheli.
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?**
Blêr, Heriol, Cymwynaswr.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr**
14 mis.
**Pa lais wyt ti?** Bas 1.
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?**
Cytuno i ddod i'r ymarferion ar ôl blwyddyn o gael fy herio i ymuno gan Llion Darby (Bas 1).



**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?**
'Gwinllan a Roddwyd' – geiriau gan Saunders Lewis, miwsig gan Caradog Williams.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Mae hi rhwng dau, Roy Orbison a Freddie Mercury.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?**
Dim barn benodol. Hoffi bob math o gerddoriaeth.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Canu am y tro cynta efo'r côr yn y London Palladium. Wel am brofiad!
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Pêl-droed. Wedi chwarae dros 800 o gemau i'r Felin ac wedi eu rheoli. Yn is-reolwr ar y funud.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Anodd credu bod amser yn y calendr i wneud unrhyw beth arall.

# gair neu ddau

**John Pritchard**

**CYMDEITHAS**

Soniais y tro diwethaf am oedfa y bwriadwn fynd iddi ddiwedd y mis. Gohiriwyd honno wrth gwrs oherwydd yr argyfwng Covid-19. Erbyn canol mis Mawrth yr oedd pob oedfa a chyngerdd a drama, a phob cyfarfod cyhoeddus arall i bob pwrpas wedi eu gohirio hefyd. Mae'r cyfyngiadau ar ein symudiadau yn mynd yn fwy a mwy caeth, a does gen i, fwy na neb arall, fawr o syniad pa reolau newydd fydd mewn grym erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn. Arwydd o'r amserau rhyfedd hyn yw nad oes modd argraffu Llais Ogwan ar hyn o bryd ac mai'n ddigidol y byddwch yn gweld y golofn hon a gweddill y papur am y tro. Mae pawb ohonom yn gorfod ymgodymu â phatrwm gwahanol iawn, a bydd arnom angen llond trol go fawr o ddisgyblaeth ac amynedd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Ers sawl blwyddyn, clywyd yn fynych bobl yn cwyno am anfanteision a pheryglon y cyfryngau cymdeithasol am eu bod yn llyncu amser ac yn amharu ar ymwneud pobl â'i gilydd. Dadleuwyd fod cymdeithas yn cael ei difetha am fod pawb â'i drwyn yn ei ffôn. Ar y stryd, yn y trên, wrth y bwrdd bwyd ac mewn llu o sefyllfaoedd mae pawb, meddir, yn ei fyd bach ei hun a neb yn codi sgwrs nac yn cymdeithasu. Mi dybiwn i y bydd llawer wedi newid eu cân erbyn i'r aflwydd hwn fynd heibio. Eisoes mae'r ffôn bach a'r dabled a'r cyfrifiadur, a'r holl gyfryngau ac apiau ac ati sy'n ein galluogi i gysylltu â'n gilydd trwyddynt wedi gwneud mwy na digon i gyfiawnhau eu bodolaeth i'w beirniaid mwyaf brwd. A chyn daw pethau'n ôl i drefn gallwch fentro y bydd pawb yn eu gwerthfawrogi a'u trysori. Maent eisoes yn ein galluogi i weld a siarad â theulu a ffrindiau pell ac agos. Hebddynt, byddai'r wyrion ym mhen draw'r stryd mor ddieithr ar hyn o bryd â'r rhai sydd filltiroedd i ffwrdd. Ac ar hyn o bryd, trwy'r cyfryngau hyn mae'r rhai sydd ym mhen draw byd mor agos â'r rhai sydd yn llythrennol ym mhen draw'r stryd. Ydyn, maen nhw'n ddyddiau rhyfedd iawn.

Yn amlwg, mae pawb ohonom yn ddiolchgar am weithwyr diflino'r Gwasanaeth Iechyd. Roeddem eisoes yn diolch amdanynt, ond yn fwy felly yng nghanol yr argyfwng mawr hwn. Ac os ydych yn credu yn Nuw, mae'n siŵr eich bod nid yn unig yn teimlo'n ddiolchgar ac yn datgan eich diolch i'r gweithwyr hynny bob cyfle posibl ond yn diolch i Dduw amdanynt bob dydd hefyd. Mi fyddwch hefyd gobeithio'n diolch am bawb arall y mae'r argyfwng hwn wedi ein hatgoffa, neu o bosibl wedi agor ein llygaid am y tro cyntaf, i sylweddoli ein dibyniaeth arnynt. Dangoswyd i ni'r wythnosau diwethaf hyn ein bod yn gwbl ddibynnol ar eraill, ac nad oes neb ohonom mor hunangynhaliol ag y tybiwn ar brydiau ein bod. Pobl sy'n rhan o gymdeithas ydym ym myd Duw. Fe'n bwriadwyd gan y Creawdwr i fod mewn perthynas â'n gilydd. Ac un o roddion mwyaf sylfaenol Duw i ni yn y byd hwn yw cymdeithas. O fewn y gymdeithas honno y mae i ni gynhaliaeth a chymorth trwy ein gilydd, diolch i'r Brenin Mawr.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards,** Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

**Babi Newydd**

Croeso mawr i Llew Dafydd, mab cyntaf i Angela a Richard o Goed Mawr, ac ail ŵyr i Mair Leverett o bentref Llandygái.

***Eglwys Sant Tegai***

**Dymuniadau gorau**

Dymuniadau gorau oddi wrth gynulleidfa St Tegai i ddarllenwyr digidol y Llais yn ystod yr amser anodd yma. Arhoswch gartref a chadwch yn saff, bawb.

**Gwaith Atgyweirio Mawrth/Ebrill 2020**

Oherwydd y cyfyngiadau gyda haint Covid-19 daeth gwaith atgyweirio'r eglwys i ben ar ôl wythnos. Er y siom, 'roedd y penderfyniad i ohirio'r gwaith ac i gau'r safle yn un hollol gywir.

**Stondin Ysbyty Gwynedd**

Canslwyd y stondin codi arian yn Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 16eg oherwydd y cyfyngiadau meddygol a chymdeithasol, ond diolch i bawb a wirfoddolodd i werthu nwyddau. Bydd cyfle eto yn y dyfodol!

**Llongyfarchiadau**

Ymysg yr holl newyddion drwg, braf yw cael gyrru llongyfarchiadau i Richard ac Angela Murchutt ar enedigaeth eu plentyn. Llongyfarchiadau hefyd i'w teuluoedd sy'n gefnogol iawn i'n gweithgareddau.

**Gwasanaethau Sant Tegai**

Pob bendith ar Violet Evie, wyres Alwena Williams, a fedyddiwyd yn yr eglwys ar Fawrth 1af, yr achlysur olaf i'w gynnal cyn cau'r adeilad am y misoedd nesaf. Yn ystod y cyfnod anodd yma mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clòs drwy e-bost neu dros y ffôn ac yn ymuno mewn gweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen bob dydd Sul am 10.15 Croeso i chi oleuo cannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdod a dweud gweddi gyda ni.


STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# CHWILAIR

**Oherwydd yr amgylchiadau anarferol yn sgil lledaeniad y feirws, penderfynwyd peidio â chynnwys y Chwilair hyd nes y bydd yr aflwydd wedi mynd heibio.**
**Dyma atebion Mawrth**: Ceffyl pren; Cymysgedd; Cŵn; Gordd Pren; Lefel Wirod; Llif; Morthwyl; Scriw; Sgriwdrifer; Sgwâr; Trywel; Ysgol.
**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir yn cynnwys GLIW**: Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd. **Enillydd Mawrth oedd**: Marilyn Jones, 1 Glanffrydlas, Bethesda. **Byddwn yn anfon y wobr ar ôl i'r argyfwng presennol ddod i ben.**

# Canllawiau gan y Llywodraeth


## Yr Argyfwng Coronafeirws - Cymerwch Sylw

**Sut ydw i'n gallu cael cymorth gyda bwyd a meddyginiaethau os ydw i'n lleihau fy nghysylltiadau cymdeithasol?**
Gofynnwch i deulu, ffrindiau a chymdogion eich cefnogi a defnyddio gwasanaethau ar-lein. Os nad yw hyn yn bosibl, yna mae'r sector cyhoeddus, busnesau, elusennau a'r cyhoedd yn paratoi i helpu'r rhai sydd wedi eu cynghori i aros adref. Mae'n bwysig siarad gydag eraill a gofyn iddynt eich helpu i wneud trefniadau ar gyfer danfon bwyd, meddyginiaethau a gwasanaethau a chyflenwadau allweddol, ac i ofalu am eich iechyd a lles corfforol a meddyliol.

Os ydych chi'n derbyn cefnogaeth gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft os ydych chi'n derbyn gofal trwy awdurdod lleol neu system gofal iechyd, bydd hyn yn parhau fel arfer.

Fe ofynnir i'ch darparwr gofal iechyd neu gymdeithasol gymryd rhagofalon ychwanegol i sicrhau'ch bod wedi'ch diogelu. Mae'r cyngor ar gyfer gofalwyr ffurfiol wedi ei gynnwys yn y Ddarpariaeth gofal cartref.

**Beth ddylech chi ei wneud os oes gennych chi apwyntiadau ysbyty a meddyg teulu yn ystod y cyfnod hwn?**
Rydym yn cynghori pawb i geisio mynediad i gymorth meddygol o bell, ble bynnag fo'n bosibl. Fodd bynnag, os oes gennych chi apwyntiad ysbyty neu feddygol arall wedi ei drefnu yn ystod y cyfnod hwn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu glinigwr i sicrhau'ch bod yn dal i dderbyn y gofal rydych ei angen ac i weld a oes modd gohirio apwyntiadau.



**Beth yw'r cyngor o ran ymwelwyr, yn cynnwys y rhai sy'n darparu gofal i chi?**
Dylech gysylltu â'ch ymwelwyr cymdeithasol rheolaidd fel ffrindiau a theulu i roi gwybod iddynt eich bod yn lleihau cyswllt cymdeithasol ac na ddylent ymweld â chi yn ystod y cyfnod hwn oni bai eu bod yn darparu gofal allweddol i chi. Mae gofal allweddol yn cynnwys pethau fel help i ymolchi, gwisgo neu baratoi prydau.

Os ydych chi'n derbyn gofal iechyd neu gymdeithasol rheolaidd gan sefydliad, naill ai trwy eich awdurdod lleol neu os ydych chi'n talu am hyn eich hun, rhowch wybod i'ch darparwyr gofal eich bod yn lleihau cyswllt cymdeithasol a chytuno ar gynllun i barhau eich gofal.

Os ydych chi'n derbyn gofal allweddol gan ffrindiau neu deulu, siaradwch â'ch gofalwyr am ragofalon ychwanegol y gallant eu cymryd i'ch cadw'n ddiogel. Efallai y bydd y canllawiau hyn ar Ddarpariaeth gofal cartref yn ddefnyddiol.

# Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen

**Cyfle gwych i ddod i wybod mwy am yr ardal a'i hanes.**

Ydach chi wedi bod ar wefan Hanes Dyffryn Ogwen? Dyma wasanaeth ar-lein di-dâl sy'n llawn gwybodaeth am bob agwedd ar hanes y dyffryn – pobl, cartrefi, adeiladau hanesyddol, hamdden, addysg, diwydiant, amaethyddiaeth, diwylliant, crefydd, gwleidyddiaeth, cyfraith a threfn, isadeiledd a daeareg.

Sefydlwyd y wefan yn 2015 gan John Llywelyn Williams a Lowri Williams, a bellach mae o leiaf gant o erthyglau safonol arni yn ymwneud â bywyd y gymdeithas yma. Mae'r archif yn drysorfa, ac yn ffynhonnell werth chweil i'w chwilota. Cewch bleser yn defnyddio'r wefan, ac mae rhywbeth at ddant pob un ohonoch arni.


**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

**SIOP OGWEN**
33 Stryd Fawr, Bethesda
Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!
Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!
Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.
Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).
siop@ogwen.org
**01248 208 485**

**CHRIS GRIFFITHS CYF**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900531**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Cymorth pwysig**
Braf oedd cael taflenni trwy'r drysau i gynnig help efo siopio a nôl meddyginaeth i bobl sy'n gorfod ynysu eu hunain oherwydd y coronafeirws. Diolchwn i'r gwirfoddolwyr am eu gwaith.

**Cydymdeimlo**
Bu farw Mr Dylan Rowlands, 'Lloches', 6 Llwyn Bleddyn yn annisgwyl iawn yn ei gartref ar y 9fed o fis Mawrth. Mi fydd rhai o ddarllenwyr y Llais yn cofio bod Dylan wedi chwarae yn y gynghrair snwcer leol am lawer o flynyddoedd. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, y 26ain o fis Mawrth yng ngofal ei fab yng nghyfraith, y Parchg. Derec Rees. Rydym ni'n cydymdeimlo yn fawr gyda'i briod Meinir, yn ogystal â'i blant, Alaw, Gethin, Gwion, Heledd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Difrod**
Difrodwyd arwydd tŷ-tafarn y Royal Oak yn ystod y stormydd, a bu gweithwyr yn brysur yn codi un newydd yn ei le. Gresyn bod y dafarn yn gorfod cau wedyn oherwydd y coronafeirws.

**Cais cynllunio**
Cyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Gwynedd ar gyfer 30 o dai yn hanner o Gae Rhosydd. Mae cynghorwyr cymunedol Rachub wedi anfon eu sylwadau i mewn, gan awgrymu enillion cynllunio hefyd.

**Diolch**
Dymuna Meinir, Alaw, Gethin, Gwion, Heledd a'u teuluoedd ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn marwolaeth brawychus o sydyn Dylan Rowlands yn ei gartref 6 Llwynbleddyn, Llanllechid ar y 9fed o Fawrth. Diolch yn fawr.

**Diolch**
Dymuna Brenda, Plas Pistyll, 33 Ffordd Llanllechid, a'r teulu i gyd ddiolch i bawb am eu cardiau a'u rhoddion er cof am Melvin Griffiths. Casglwyd £435.00 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Mrs Helen Williams, Llwynbleddyn. Cyfarfu Helen â damwain ac fel canlyniad rhaid oedd aros wythnos yn yr ysbyty. Gobeithio eich bos yn gwella ac y cawn eich gweld o gwmpas y lle yma'n fuan.

**Diolch**
Mae Mrs Helen Williams yn dymuno diolch i bawb am eu caredigrwydd ar ôl iddi hi lithro a syrthio a thorri asgwrn ei chlun. Mi gafodd hi lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd i atgyfnerthu'r asgwrn wrth iddo asio, a'i hanfon adref, ac mae hi wedi gwella cryn dipyn ers hynny. Mae hi'n awyddus i ddiolch i bawb sydd wedi ymweld â hi, am y cardiau a'r blodau, am y galwadau ffôn, a'r bisgedi a'r holl siocled! Diolch i bob un ohonoch chi.

## Carmel Llanllechid

Ni chynhelir unrhyw wasanaethau ar y Sul nac Ysgol Sul tra bydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol yn parhau. Mae Clwb Dwylo Prysur, Clwb Gwau'r Merched, a'r Te Bach wedi eu gohirio am y tro hefyd. Anfonwn ein cofion at ein haelodau i gyd, yn arbennig felly'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi. Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel.

**Colli Aelod**
Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Mrs Eira Hughes, Awel y Nant, Bethesda yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Llun, y 9fed o fis Mawrth yng ngofal y Parch. John Pritchard, gyda'r Parch. Geraint Hughes, a'r Parch. Dafydd Coetmor Williams yn cymryd rhan. Rydym ni'n anfon ein cydymdeimlad o waelod calon i'w phriod, Joe, Angharad ei merch, Joshua ei hŵyr a'i theulu hi i gyd yn eu profedigaeth.

Roedd Eira yn aelod hynod weithgar yn yr achos yng Ngharmel. Roedd hi'n mynychu'r gwasanaethau ac yn barod iawn i fod â rhan yn y gweithgareddau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â'r capel yn ystod y flwyddyn. Y hi oedd ysgrifenyddes Cymdeithas y Chwiorydd ac roedd hi wrth y bwrdd gwerthu yn y Te Bach yn ddi-ffael ac yn rhoi'n hael tuag ato hefyd. Roedd hi'n aelod cynhyrchiol iawn o'r Clwb Gwau a thros y blynyddoedd mi wnaeth hi wau pentwr o gapiau a sgarffiau ar gyfer y bocsys ar gyfer Plentyn y Nadolig. Pan fyddai'r Cyfarfod Chwarter yn dod i Garmel yn ei dro neu ar unrhyw achlysur cymdeithasol arall, mi fyddai hi'n gwneud cacennau a sgons ac yn gweini wrth y byrddau.

Bu Eira a Joe gyda'i gilydd yn weithgar iawn gyda gwaith Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Roedd pobl yr ardal yn eu gweld nhw wrth y bwrdd gwerthu yn yr ysbyty bob pythefnos ar hyd y blynyddoedd ac fe ddaeth llawer iawn ohonyn nhw i'r gwasanaeth yn yr amlosgfa. Un boblogaidd a charedig iawn oedd hi ac roedd pobl yn hoff ohoni.

Rydym ni i gyd yn ddigalon o golli Eira. Mae bwlch mawr wedi agor ym mywyd y capel. Er hyn, rydym ni'n diolch i Dduw am y cyfeillgarwch a gawsom ni gyda hi, am ei pharodrwydd hi i helpu bob amser, ac am ei rhan ffyddlon hi ym mwrlwm yr achos yng Nghapel Carmel.

**Gŵyl Ddewi**
Ar fore Sul, y 1af o fis Mawrth, mi gawsom ni wasanaeth hyfryd yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc. Mi wnaeth pob un ohonyn nhw ei waith yn ardderchog ac mi gawsom ni fendith o fod yn bresennol yno. Diolch i'r bobl ifanc am osod y cennin Pedr o gwmpas y capel. Roedd y blodau'n dlws iawn a diolch hefyd i Mrs Margaret Bowen Rees am roi'r blodau bob blwyddyn ar ŵyl Ddewi. Ar ddiwedd y gwasanaeth, mi aeth pawb i'r ysgoldy i gael sgwrs, paned, a chacen. Diolch i bawb a wnaeth helpu gyda'r te. Aeth y casgliad at waith yr Ysgol Sul.





## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes**,
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB
☎ 01248 601318
E-bost:
carys16@hotmail.com

**Firws Corona**
Lluniwyd taflen wybodaeth hynod o ddefnyddiol gan Michelle Hambleton, Linda Salmmonds, John Lewis, Kate Potter a Carolien Lamers er mwyn cefnogi ardalwyr yn ystod y cyfnod anodd yma. Mae'r daflen yn egluro sut i helpu unigolion sy'n hunan-ynysu ac yn rhoi gwybodaeth ble i brynu nwyddau a phwy sydd yn cyrchu bwydydd i gartrefi.

Bu i Wyn James lwytho'r wybodaeth ar wefan *pentir.org.uk* a gellir apelio am help llaw drwy anfon neges e-bost i post@pentir.org.uk  Diolch ar ran trigolion Pentir!

**Gwarchod Bywyd Gwyllt**
Adroddwyd yn y rhifyn diwethaf bod criw gweithgar yn rhoi cymorth gydag ymfudo llyffantod a brogaod ar hyd Lôn Rallt. Mae'r gwirfoddolwyr yn eu casglu rhag iddynt gael eu gwasgu gan olwynion ceir ac wedyn eu rhyddhau i lyn cyfagos. I fyny hyd ganol Mis Mawrth, casglwyd 1,199 o frogaod ac 149 o lyffantod.

**Llygru Afon Cegin**
Cafwyd dau achos o sbwriel yn cael ei daflu dros Bont Felin i Afon Gegin ac mae'n amlwg mai o'r un cartref y daethant. Yn yr achos cyntaf, taflwyd gwastraff anifeiliaid ac yn yr ail achos taflwyd gwastraff cegin – teganau, llyfrau ac offer plastig. Mae'n deg gofyn beth yw meddylfryd yr unigolion yma a ble mae eu parch i'r amgylchedd.

**Ffair Pentir**
Wrth bori trwy hen rifynnau o'r papur newydd *Baner ac Amserau Cymru*, deuthum ar draws hysbysebion yn tynnu sylw at Ffair Pentir. Mae'n amlwg bod y ffair yn achlysur blynyddol, ac o 1880 hyd 1910 cynhaliwyd y ffair ar 9fed Ebrill.

Diddorol fyddai cael hanes y ffair. Ble'n union oedd y lleoliad, beth oedd natur y prynu a'r gwerthu, a phryd ddaeth y ffair i ben?

# Hen Ben

Fe welais Eusebio a Pele yn chwarae yng Nghwpan y Byd yn 1966 yn Goodison Park, Lerpwl, pan enillodd Portiwgal dîm Brasil o dair gôl i un. Sgoriodd Eusebio ddwywaith ac, yn llythrennol, fe giciwyd Pele druan oddi ar y cae.

Fe safodd y llanc ifanc o Bortiwgal, a oedd yn torri fy ngwallt, yn ei unfan. Gallwn synhwyro beth oedd yn mynd trwy ei feddwl. "Roedd fy nhad yn arfer sôn am Eusebio, ac mae o wedi marw ers dros ddeg mlynedd. Mae'r boi yma un ai dros ei bedwar ugain neu mae o'n gelwyddgi!" Dwi ddim yn un o'r ddau beth.

Fe sylweddolais ar y pryd fy mod i wedi eistedd mewn sedd debyg dros wyth gant o weithiau yn ystod y trigain mlynedd diwethaf. Roeddwn wedi gorfod syllu ar fy hun yn heneiddio, yn britho, a'm gwallt yn diflannu'n raddol dros y cyfnod yma. Pan eisteddwch yng nghadair y barbwr does dim dianc. Nid oes unrhyw ddewis – dim ond edrych yn syth ymlaen neu mae 'na risg bendant i'r siswrn dorri darn o'ch clust! Dros y blynyddoedd, fel roedd y gwallt yn encilio o'm pen, mae o wedi ail-hadu mewn tyllau a chorneli tywyll eraill, a phan ofynnwyd i mi "Ydi syr am imi dorri'r aeliau?", fe wyddom fod y rhain hefyd yn rhan o'r cynllwyn.

Y cof cyntaf sydd gen i o ymweld â'r barbwr ar fy mhen fy hun ydi pan oeddwn tua saith oed. Roeddwn yn wir gasáu'r holl brofiad o fynd at Jones Barbar. Fe'm gadawyd yno gan fy mam i eistedd am hydoedd ymysg hen ddynion, yn parablu am 'dwn i ddim be', ac yn fy anwybyddu'n llwyr.

Roedd Mr Jones yn cyfathrebu gyda'i wraig Magi, a oedd yn byw o dan y siop, trwy daro ei droed ar y llawr. Fe fuasai hi'n ymddangos mewn chwinciad y tu ôl i'r cownter a delio gyda'r cwsmer a oedd am brynu plu sgota neu flaen-llinyn.

Ni ofynnwyd i mi erioed sut roeddwn am dorri fy ngwallt – roedd Mam eisoes wedi gwneud hynny'n glir. "Short back and sides" bob tro. Ar ddiwedd y broses boenus roedd fy nghlustiau yn sticio allan fodfedd yn fwy, a'm llygaid yn ymddangos yn beli enfawr tu ôl i'm sbectol NHS drwchus.

Fe ges wared â Mr Jones cyn gynted ag roedd modd. Yn ystod blynyddoedd fy arddegau, cefais y fraint o allu rhoi cyfarwyddiadau fy hunan i'r barbwr. Wel, ddim bob tro chwaith. Pan oeddwn yn un a'r bymtheg roeddwn yn awyddus iawn i blesio merched ac i gael torri fy ngwallt fel *mods* Bangor. Felly, doedd dim amdani ond cydymffurfio pan gynigiwyd torri fy ngwallt gan ddwy o'm ffrindiau yn festri Capel Jerwsalem. Wedi iddynt gwblhau'r job, roedd fy mhen yn llu o dyllau moel, ac fel bonws roeddynt wedi torri llinell igam-ogam, lydan efo rasel o un pen i'r llall. Roedd rhaid i mi wisgo llwyth o blasteri ar hyd fy mhen am tua phythefnos wedi hyn, a derbyn llond ceg gan fy nhad.

Nid oes gennyf lawer o gof o dorri fy ngwallt yn aml pan oeddwn yn fyfyriwr yn Aber. Roedd dechrau'r saithdegau yn gyfnod yr *hippies* a gwalltiau hir, a'm cyfnod innau o fod yn rebel. Mae'r ychydig luniau sydd ar gael o'r amser hyfryd yma'n dyst i hyn!

O symud i Gaerdydd a dechrau gyrfa broffesiynol roedd rhaid sicrhau fod y gwallt hefyd yn cyfateb i'r ddelwedd 'coler a thei' y gŵr ifanc o'r ddinas. Mae'n rhaid bod hyn wedi gweithio oherwydd o fewn rhai blynyddoedd o gymhwyso fel cyfrifydd cefais gynnig joban yn Lwcsembwrg.

Ar y dechrau roedd yn dipyn o sialens cyfleu fy nghyfarwyddiau i'r barbwr cynhenid ar sut i dorri gwallt Cymro. Ond, ar ôl ambell gynnig, fe gyfaddawdwyd ar steil geidwadol fyr.

Ar ôl ychydig o flynyddoedd yn Lwcsembwrg, fe ddechreuodd pethau fynd ar chwâl. Erbyn hyn, a minnau dros fy neg ar hugain, yn briod, gyda dau o blant, fe sylweddolais fod yna dystiolaeth bendant fod fy ngwallt wedi dechrau britho ac roedd ambell un o'm cyfeillion tal wedi fy hysbysu fod corun moel wedi dechrau amlygu ei hun. Pan ddywedais yn ysgafn wrth fy marbwr arferol fod fy ngwallt yn teneuo'n gyflym, fe ochneidiodd yn uchel ac yn drist fel petawn y tu hwnt i bob gobaith!

Wedi imi symud i Lasne, ger Brwsel, yng nghanol y naw degau roeddwn mewn swydd go fras, ond dim mwyach mor ifanc. Roeddem yn byw mewn ardal reit swanc ac roedd y barbwr *unisex* yn gweddu. Roedd torri gwallt yn fater hir, poenus a drud.  Ar ôl symud i ganol dinas Brwsel rai blynyddoedd yn ddiweddarach, dewisais farbwr gyferbyn â'm fflat. Roedd merch ddeniadol iawn o Fwlgaria yn gweithio iddo ac roedd hi'n feistres corn ar roi *massage* i'r copa. Sôn am gyffroi llif gwaed! Roedd fy ffrind Belgaidd, Andre, yn mynd ati bob wythnos. Sgwn i pam?

O ddychwelyd i ogledd Cymru, a'm gwallt, gan fwyaf, wedi hir ymadael, a'r hyn oedd yn weddill yn reit wyn, cefais y fraint o leiaf o gael ei dorri yn Gymraeg unwaith eto. Yn ystod y cyfnod yma roeddwn yn cyfarwyddo'r barbwr i'w dorri yn fyr gan obeithio y buasai hynny'n annog tyfiant, ond yn ofer mae arna i ofn. Ta waeth, roedd yr ymweliadau â'r barbwr yn rhai rhad iawn.

Yna cau'r cylch ar ôl un mlynedd ar bymtheg ar hugain, a dychwelyd i'r brifddinas. Cael hyd i farbwr hen ffasiwn a oedd â thueddiad i dorri fy ngwallt yn fyr tu hwnt. Y tro yma nid Mam oedd yn rhoi cyfarwyddiadau ond merch arall, a newid barbwr fu raid!

Rŵan, dwi'n mynd i dorri fy ngwallt i le cŵl iawn rownd y gornel ym Mhontcanna sy'n rhoi coffi am ddim a disgownt i bensiwnïars. Dwi'n siŵr mod i, ar gyfartaledd, yn fwy na dwbl oed y cwsmeriaid eraill. Fel arfer mae'r sgwrs am wyliau, chwaraeon a gwleidyddiaeth (yn llai aml). Syllaf ar fy hun yn y drych ac ar y darnau o wallt gwyn, ysgafn ar fy nglin gan ddyfalu a fuasai Pele wedi sgorio gôl fythgofiadwy pe baent heb ei gicio mor frwnt yn ôl yn 1966.

**Alwyn Llwyd**

# Pantri Pat

## Pryd maethlon, blasus a rhad

(ar gyfer 5 o bobl)

***Cynhwysion***

Hambwrdd o selsig o ansawdd (6 selsig).
2 nionyn wedi eu tafellu.
6 madarchen wedi eu torri'n chwarteri.
1 bag o datws wedi eu stwnsio (£1 o Icleand).
1½ sgwâr o stoc porc efo 1½ o ddŵr.
1 llwy fawr o saws soy.
½ llwy fawr o *puree* tomato.
1 ewin o arlleg wedi ei falu.
1 lwy lawn o lysiau cymysg.
Stwnsh rwdan a moron.

***Dull***

- Ffriwch y nionod a'r madarch a'u rhoi ar wahân.
- Ffriwch y selsig a'u troi yn gyson mewn padell neu wok.
- Gwnewch y stwnsh rwdan a moron.
- Rhowch y nionod, y madarch a'r llysiau efo'r selsig, wedyn cymysgu'r stoc garlleg, y saws soy a'r *puree* tomato yn dda.
- Cymysgwch flawd India corn efo ychydig i ddŵr oer er mwyn tewychu'r grefi.
- Ychwanegwch bupur du a thipyn o halen.
- Mudferwi'r cwbl am ryw 10 munud.

## Llythyr oddi wrth Helen Lant (Hughes gynt), gogledd Swydd Efrog

Mi ges i dipyn o sioc pan welais fy llun yn *Llais Ogwan* (mis Rhagfyr) – pump ohonon ni'r genod, Margaret a Glenys Hughes, Alvys Hughes, Iris Hughes a fi, Helen Hughes bach, yn eistedd ar ben tractor. Ie, y tractor o ffarm Tŷ Uchaf, Talybont, lle 'roedd y pump ohonon ni yn mynd bob dydd trwy gydol y gwyliau (ond dim dydd Sul wrth gwrs – 'doedd neb yn chwarae allan ar ddydd Sul!). Mr a Mrs Ellis oedd teulu Tŷ Uchaf, a Mr Jack Ellis, brawd Mr Ellis, oedd wedi riteirio – fferyllydd yn Lerpwl oedd o cyn riteirio, yn ôl mam, ond chlywais i erioed neb arall yn dweud gair ynghylch hynny. 'Dydw i ddim yn cofio i ni erioed weld y merched o gwmpas y ffarm. Efallai eu bod nhw i ffwrdd yn y coleg? Dydw i ddim yn gwybod.

Chwarae o gwmpas y ffarm oeddan ni yn amal iawn, ond roeddem yn mwynhau mynd i fyny i'r cae hefo Mr Jack Ellis i ddod â'r gwartheg i fewn i gael eu godro. Cerdded y tu ôl iddyn nhw i lawr y lôn, a Mr Ellis bob amser wrth ochor Del, â'i fraich bob amser yn ysgafn ar ei chefn. 'Roedd o'n meddwl y byd o Del, hi oedd yr unig un hefo enw arni!

I'r beudy â nhw – ni yn helpu i'w clymu yn eu lle – pob buwch yn mynd i'r un lle bob bore a pnawn cyn i'r godro ddechrau. 'Roedd un gwas ffarm – 'rydwyf yn meddwl mai Glyn oedd ei enw, a'i fod yn perthyn i'r teulu. Glyn a Mr Ellis fyddai'n godro, bob un yn eistedd ar stôl wrth y fuwch a gorffwys ei ben ar ochor y fuwch, a ni y genod yn cribo cynffonnau'r gwartheg pan oedd hyn yn mynd ymlaen. Roeddem ni yn handi hefo'r rhaw hefyd i glirio i fyny ar ôl y gwartheg! Unwaith oedd y godro wedi gorffen, yn ôl i'r cae â'r gwartheg, a ninnau yn golchi llawr y beudy hefo *hose pipe* a brwsh bras. Mi fydda Glyn yn cadw llygad arnan ni i wneud yn siŵr fod pob man yn cael ei adael yn lân!

'Roedd y llefrith yn mynd o'r beudy i'r tŷ llaeth, drws nesaf i'r beudy, lle 'roedd Mrs Ellis yn brysur. 'Dydw i ddim yn siŵr beth oedd Mrs Ellis yn wneud ond 'roedd bob man yn lân ac ogla *antiseptic* ar bob peth – felly, tu allan i'r drws oedd lle pawb arall! 'Roedd y llefrith yn mynd i'r *churns* mawr ac wedyn i lawr wrth ymyl y giât i eistedd ar 'silff' arbennig ar y wal, lle 'roedd y lori yn eu casglu bob dydd.

Weithia, mi fydda Mrs Ellis yn rhoi diod o lefrith i ni – llefrith yn syth o'r fuwch. 'Roedd y llefrith yma yn ffres ac yn gynnes!

Dwi'n cofio y diwrnod pan ddaeth yr *electric milker* i'r ffarm! Welsom ni ddim byd fel hyn o'r blaen – Glyn a Mr Ellis yn brysur yn eu ffitio nhw ar y gwartheg, a ni, y genod, ddim yn meddwl ein bod yn gweld yr hen ffordd yn mynd heibio!

Casglu'r gwair oedd uchafbwynt y gwyliau. Y pump ohonom yn eistedd o gwmpas Mr Ellis ar ben y tractor, a ffwrdd â ni i fyny i'r caeau i baratoi'r gwair. Troi'r gwair bob dydd hefo picwarch i adael siawns i'r gwair sychu yn iawn, ac ar ôl ychydig o ddiwrnodau llwytho'r gwair yn das ar y drol. Pan oedd y drol yn barod, i fyny â ni ar dop y das, tu ôl i'r tractor i fynd yn ôl i'r ffarm, a chymryd gofal pan yn mynd dan y bont drên ar waelod y lôn. Dadlwytho'r gwair i'r das fawr ar y ffarm, a wedyn, chwarae ar ben y das, a neidio dros-ben o dop y das i lawr i das fach ar y gwaelod. 'Roedd Iris yn neidio dros-ben fel *expert*, ond rhaid i mi gyfadda, 'roeddwn i yn hynod nerfus! Chlywsom ni erioed am 'Iechyd a Diogelwch' adeg hynny, ond wrth edrych yn ôl, 'rwyf yn crynu wrth feddwl am y pethau 'roedden ni'n arfer wneud!

Ond atgofion melys am gyfnod hapus iawn!

*(Helen – mae Iris yn meddwl mai Robin oedd enw'r gwas, nid Glyn!)*

# Llythyr

Annwyl Olygydd,
Rwy'n sicr fod llawer fel finnau yn cofio'r awyren fomio a hedodd i ochr Ysgolion Duon yn oriau bach y 15fed o Fawrth, 1950 (*Llais Ogwan*, rhifyn Mawrth eleni). Es i'r ysgol (Pen-y-bryn) fel arfer yn y bore ac un o'r athrawon yn mynd â rhai ohonan ni i waelod yr iard chwarae i geisio gweld lle y ddamwain. Yn anffodus roedd y cymylau rhy isel, ond ar ôl diwrnod neu ddau gwelid y llanast yn glir. Roedd un adain bron yn gyfan ac fe fuo hi a darnau eraill yno am flynyddoedd.

Pan ddaeth yr haf aeth nifer i'w gweld ac yn siŵr wedi dod â darn bach fel swfenîr yn ôl i'w cartrefi.

Roedd llawer i awyrennau eraill wedi eu colli dros Eryri yn yr Ail Ryfel Byd, ond doedd neb yn meddwl am ddamwain fel hon ac mi fuo'n sioc fawr i'r ardal.

Aeth dros ugain mlynedd tan es i'n ôl at le y ddamwain ac roedd pob dim bron wedi diflannu. Mae ffos bach yn dechrau yn yr un lle cyn gwneud ei ffordd i waelod Cwm Pen Llafar, a phan es i grafu'r mwsog a'r cerrig bach cefais hyd i fwledi a chanon haearn. Roedd cas y canon wedi ffrwydro, ond roedd y gwaelod fel newydd. Arno mae hyn: 'GMS – 1942 – 20mmM2(A)'. Tebyg fod yna gannoedd ohonynt yn yr awyren, a dim rhyfedd fod y rhai a aeth i geisio delio efo'r ddamwain wedi gweld ffleriau yn gwasgaru i bob cyfeiriad.

Rwyf wedi cerdded lawer tro ar hyd gopa'r Ysgolion Duon, ac mi roedd y creigiau o gwmpas bedd yr awyren yn dal yn wyn o effaith y tân anferth.

Y tristwch mwyaf i mi oedd pan sylweddolais os fuasai'r awyren wedi bod rhyw ddau neu dri chant o droedfeddi yn uwch, mi fuasai wedi clirio y cribyn yn ddiogel.

**John Ffrancon Davies**
**Windsor**

# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎ 01248 355336




**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Gwyn, Einir ac Elfed Williams, Cefn Coch yn eu colled drist o golli Eira, chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb hoff. Un o genod Rhiwlas oedd Eira, wedi'i magu yn Nhan y Weirglodd i ddechrau ac yna yn Cefn Coch. Mynychodd Ysgol Waun ac yna Ysgol Dyffryn Ogwen. Tra oedd hi'n byw yn y pentref roedd yn aelod selog yng Nghapel Pisgah ac yno y priododd â Joe ac ymgartrefodd y ddau yn Nyffryn Ogwen. Roedd Eira yn weithgar iawn yn y gymuned, yn y capel ac yn gefnogol i achosion da mewn ffordd dawel. Bu'n hynod o weithgar yng ngwaith Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwn hefyd â Joe, Angharad a Joshua yn eu colled drist ac annisgwyl.

Yn yr un modd, rydym yn cydymdeimlo â theulu y diweddar Dean Short, 24 Caeau Gleision, a fu farw trwy ddamwain ar gyrion Caergybi. Anfonwn ein cofion at ei ferched, Meleri a Beca, ei deulu agos, ei chwaer Kerys, 24, Caeau Gleision, ei gŵr Terry a'i nai Niclas.

Ar Fawrth 20fed yn dawel yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon yn 94 oed bu farw Annie Mary Williams, gwraig y diweddar Moi Fodol fel yr adwaenid ef, mam Brenda a mam yng nghyfraith Meurig , 19 Bro Rhiwen. O dan yr amgylchiadau presennol bu'r angladd ar lan y bedd ym Mynwent Pentir, gyda'r Parch Geraint Roberts yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chi fel teulu. Derbyniwyd rhoddion er cof yn ddiolchgar tuag at Gronfa Preswylwyr Cerrig yr Afon.

**Merched y Wawr, cyfarfod mis Mawrth**
Carys oedd llywydd y mis a Nia ac Iona oedd yn gyfrifol am y baned. Ein gŵr gwadd oedd Wil Aaron a thestun ei sgwrs oedd Martha Hughes Cannon, un a aned yn Llandudno ar y Gogarth yn 1857. Yn 1860 ymfudodd y teulu i Utah gan iddynt ddod yn aelodau o sect y Mormoniaid ac yn ofni cael eu herlid oherwydd hyn. Bu farw ei chwaer ar y fordaith a'i thad ychydig ar ôl i'r teulu ymsefydlu yn Ninas y Llyn Halen. Roedd yn wraig arbennig iawn – llwyddodd i fod yn feddyg gan agor ysbyty yn y dref hefyd. Roedd yn gefnogol iawn i hawliau merched, a daeth yn aelod o Senedd America, y wraig gyntaf erioed i wneud hynny. Doedd bywyd ddim yn hawdd iddi gan iddi briodi ag Angus Cannon, un a gredai mewn amlwreigedd. Hi oedd ei bedwaredd wraig. Mae ei hanes yn hynod o ddiddorol ac eleni fe fydd cerflun ohoni yn cael ei ddadorchuddio yn Washington fel cynrychiolydd Senedd Utah. Braint yn wir – fe fydd ymysg mawrion yr Unol Daleithiau. Bu farw yn 1932 yn Los Angeles, wedi iddi symud yno i fod yn nes at ei thri phlentyn. I ddathlu ei bywyd y mae Will Aaron ac eraill am gael cofeb iddi ar y Gogarth. Gobeithio fod y braslun yma o'i hanes yn eich annog i ddarllen mwy amdani.



Diolch am noson ddifyr, ac edrychwn ymlaen i weld y gofeb iddi yng Nghymru. Mae'n debyg mai cyfarfod mis Mai fydd yr olaf o'r tymor yma. Diolch am eich cydweithrediad dros y misoedd diwethaf. Cofion atoch a chymerwch ofa.

**Gwerthfawrogi**
Rydym i gyd yn ymwybodol o'r gwaith arbennig a wneir gan weithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ein ysbytai. Mae pobl bellach yn awyddus iawn i ddangos eu gwerthfawrogiad mewn amrywiol ffyrdd. Ar nos Iau am 8 o'r gloch mae llawer o bobl y pentref yn dod allan i guro dwylo, ac mae'r plant yn tynnu llun enfys a'i roi yn y ffenest. Eraill wedi gwneud baneri yn lliwiau'r enfys a'u hongian yn yr ardd. Peth arall trawiadol yw gweld y llythrennau NHS wedi eu goleuo i fyny mewn gardd yn y pentref.

Mae nifer o'r trigolion hefyd wedi llythyru pobl yn yr ardal yn cynnig eu gwasanaeth, nôl bwyd, danfon presgripsiwn ac yn y blaen. Llawer o ddiolch i chwithau hefyd.

Mae'n amser dyrys ac anodd. Cadwch yn ddiogel.

# Yn yr Ardd

**Ebrill**
Mae'r gwanwyn i'w weld o'n cwmpas ym mhob man ac mae'n amser i dorchi llewys yn yr ardd.

Mi fydd y coed blodeuog yn harddu'r fro ym mis Ebrill. Dyma un o'r misoedd mwyaf cynhyrfus i'r garddwr gan fod modd plannu'r rhan fwyaf o hadau.

Fel arfer, y mae'r hadau a blannwyd eisoes dan wydr yn tyfu ymlaen yn llwyddiannus. Mae'n amser i blannu y tu allan - ond gwyliwch rhag barrug a rhew dros nos.

Gallwch ddechrau rhoi sylw i'r lawnt hefyd. Ar ôl yr holl law rydan ni wedi'i gael, gallai ychydig o fwyd wneud lles iddi ynghyd â'i hawyru drwy balu fforc drwyddi fesul troedfedd.

**TASGAU**
1. Cadwch y chwyn dan reolaeth - eu dal nhw'n gynnar sydd eisiau cyn iddyn nhw wneud meistr arnoch chi.
2. Gwyliwch rhag i flodau'r coed a'r llwyni ffrwythau gael barrug.
3. Clymwch y rhosod sy'n dringo.
4. Rhowch fwyd i'r rhosod a llwyni eraill.
5. Mae'n amser hau blodau blwyddol a hadau perlysiau.
6. Gallwch roi ychydig mwy o ddŵr i blanhigion tŷ.
7. Gallwch hau lawnt newydd neu drwsio mannau moel.
8. Gallwch roi pryd o fwyd i'r rhosod ddechrau mis Ebrill ac eto wedyn ddechrau mis Mehefin.

Dyma'r amser prysuraf o safbwynt plannu. Plannwch eich prif gnwd o datws. Tynnwch y rhan fwyaf o'r egin oddi arnyn nhw gan adael ond rhyw ddau neu dri. Cofiwch roi digon o dail i'r tatws a throedfedd dda rhyngddyn nhw. Gallwch hau persli hefyd; mae rhai yn rhoi dŵr cynnes iawn ar yr hadau gan nad ydynt yn egino'n hawdd. Gallwch hefyd hau pys, moron a sawl llysieuyn arall. Yn y tŷ gwydr, mae'n amser hau tomatos a'r blodau blwyddol.

Mae'r betys yn un o'r llysiau gorau y gallwch eu tyfu. Mae'r croen piws yn cynnwys 'betaine', sydd, mae'n debyg, yn lleihau clefydau ar y galon a'r posibiliad o gael strôc. Mae'n cynnwys magnesiwm a haearn, felly mae'n dda i'r gwaed. Mae betys yn hoff o bridd gyda draeniad da (er heb fod yn rhy sych), gyda gwres. Rhaid plannu pob betysen gyda thua 4"- 6" [10cm - 15cm] rhyngddyn nhw, er mwyn i'r planhigion gael dechrau da.




# Croesair

Annwyl Ffrindiau,
Gan ein bod wedi cael ein gosod mewn sefyllfa mor anghyffredin ac afreal yn ystod cyfnod yr afiechyd Covid-19, mae *Llais Ogwan* wedi gweld gweddnewidiad rhyfedd iawn. Yn anorfod, mae nifer dda o newidiadau wedi cael eu gorfodi ar y tîm gweithgar sy'n cynhyrchu'r papur yn fisol. Un o'r rheini yw y Croesair.

Am resymau amlwg ni fydd y Croesair yn ymddangos yn y rhifyn digidol o'r 'Llais' hyd y pery'r aflwydd yma. Tra'n ymddiheuro am hynny, rwy'n siŵr y bydd y mwyafrif ohonoch yn deall ac yn cytuno â'r penderfyniad. Mi fyddwn yn ôl eto gobeithio 'pan ddaw haul ar fryn'. Yn y cyfamser. edrychwch ar ôl eich hunain, a chadwch yn ddiogel.

**Gyda llaw, dyma atebion Croesair Mawrth:**
*AR DRAWS:* 1 Posibl, 4 Map, 8 Diben, 9 Gofalus, 10 Llangybi, 11 Dirwy, 12 Parafeddygon, 17 Yn Deg, 19 Lolipop, 21 Darllen A, 22 Camel, 23 Ras, 24 Lordio.
*I LAWR:* 1 Padelli, 2 Sebon, 3 Benthyca, 4 Malurio, 5 Pistyll, 6 Ugain Eiliad, 7 Yfed, 13 Awdures, 14 Ymlacio, 15 Sychder, 16 Apelio, 18 Gwêr, 20 Pumed.

**Dyma nifer o'r ffyddloniaid anfonodd atebion dan amodau digon anodd mae'n siŵr, a phawb yn gywir:**
Elizabeth Buckley, Tregarth; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Cath Aran, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys Parry, Rhiwlas; Gill King, Mynydd Llandygái; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Emrys Griffiths, Rhosgadfan.

Hwyl fawr tan tro nesa'.
**John Roberts**

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

www.llaisogwan.com
@Llais_Ogwan